**Dalier Sylw**
**Sganiwyd y llyfr isod ac felly efallai y ceir ambell i wall teipio sydd wedi ei greu drwy nam technegol wrth sganio. Gwnaethpwyd pob ymdrech i gywiro'r gwallau cyn osod y llyfr ar y wefan. Mae'r llyfr allan o brint bellach.**

# HEDDYCHIAETH GRISTNOGOL YNG NGHYMRU
# GAN
# GWYNFOR EVANS

## Cyhoeddwyd gan Gymdeithas y Cymod 1991

## Yr Eglwys Fore a Rhyfel

Eglwys basiffistaidd fu'r Eglwys Gristnogol trwy gydol dwy ganrif a banner gyntaf ei hanes, pan oedd hi agosaf at Iesu Grist o ran amser a meddwl, a phan oedd ei hysbryd cenhadol ar ei fwyaf nerthol. Ni fu sôn am 'ryfel cyfiawn' hyd ddyddiau Awstin. Y canrifoedd cynnar a welai'r cysondeb mwyaf rhwng proffes Cristnogion a'u bywyd. Er dioddef cyfnodau o erledigaeth erchyll yn ystod y canrifoedd hyn, gwrthodent ddefnyddio arfau nac ar ran yr ymerodraeth nac er mwyn eu hamddiffyn eu hunain. Ganrif a banner yn ôl yng Nghymru disgrifiwyd eu safbwynt gan John Jones, Tal-y-sarn, taid George M. Ll. Davies, yn ei bregeth fawr, 'Nid trwy Rym':

Nid arferent foddion teyrnasoedd y byd; nid arferent y cleddyf i dorri eu gwrthwynebwyr i lawr, ond cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw Gair Duw; nid oedd ganddynt fwa i saethu'r gelyn, ond bwa yr Efengyl, na saeth ond saethau'r bygythion a'r addewidion i'w cyfeirio i'r gydwybod . . . Nid arferent ddysgu rhyfel ond gan yr hwn sydd yn dysgu'r dwylo i ymladd a'r bysedd i ryfela yn erbyn pechod.

Cariad Duw yng Nghrist oedd sail eu hargyhoeddiad fod rhyfel yn bechod na allai'r Cristion ymroi iddo. Ffordd cariad, a grynhowyd yn y Bregeth ar y Mynydd, oedd y ffordd Gristnogol o fyw. I'r Cristnogion cynnar golygai dilyn y ffordd honno barchu bywyd pob person dynol ac ymwrthod a rhyfel. Dyna a wnaent yn ystod amgy1chiadau enbyd o anodd gogoniant yr Ymerodraeth Rufeinig, a grëwyd trwy fuddugoliaethau ei lluoedd arfog. Cawsant eu condemnio'n chwyrn a'u herlid hyd at angau nid yn unig am wrthod addoli'r ymerawdwr, ond am wrthod ymladd drosto mewn rhyfel.
Er hynny, eu hymateb gwrol oedd, yng ngeiriau Iestyn Ferthyr, 'Nid yw'n iawn ateb ymladd ag ymladd ... Nyni a droesom offer rhyfel -y cleddyfau yn erydr, a'r gwaywffyn yn offer tir.' Dwedodd Origen, a gymharwyd mewn pwysigrwydd ag Awstin, yn blwmp ac yn blaen, 'Ni wasanaethwn yr ymerawdwr fel milwyr er ei fod yn gofyn inni.' Tra dyfeisiodd Awstin yn y bedwaredd ganrif y syniad o ryfel cyfiawn, mynnai Origen, a sgrifennai yn y drydedd ganrif, nad yw trais a lladd byth yn iawn yn erbyn neb, pa mor ddrwg bynnag y bo. Tanlinellwyd hyn gan un arall o'r Tadau Cristnogol, Athenagoras, a fynnai nad oedd gan Gristion yr hawl i gymryd bywyd dynol o gwbl, hyd yn oed wrth ddienyddio llofrudd.

Roedd y Tadau Cristnogol, a'r Eglwys ei hun, yn ddigymrodedd ar gwestiwn rhyfel. 'Nid yw'n gyfreithlon i ŵr union wasanaethu fel milwr,' meddai Lactantiws. Pan gyhuddwyd

Cristnogion, tua diwedd y drydedd ganrif, o fod yn gyfrifol am ddadfeiliad yr Ymerodraeth, cyhoeddodd Arnobiws yng ngogledd Affrica mai dysgeidiaeth Crist i'w ddilynwyr oedd 'dioddef cam yn hytrach na'i wneuthur, colli gwaed yn hytrach nag ystaenio dwylo a chydwybod yng ngwaed eraill'. Manylodd Tertwlian, un o'r pennaf o'r Tadau, ar hyn:

Dioddefodd ein Harglwydd pan glwyfwyd Malchus, ac felly melltithiodd weithredoedd y cleddyf am byth. Sut y gan Cristion ryfela, na bod yn filwr, heb y cleddyf a gymerwyd i ffwrdd gan yr Arglwydd? ... Wrth ddiarfogi Pedr diarfogodd yr Arglwydd bob milwr.

Trawyd nodyn a glywyd bymtheg cant a mwy o flynyddoedd yn ddiweddarach gan heddychwyr y cyfnod modern, pan ddwedodd Cyprian, 'Pan fydd person unigol yn lladd rhywun, gelwir hynny'n drosedd, ond pan fydd llu yn lladd mewn rhyfel gelwir hynny'n rhinwedd. '

Corfforwyd agwedd yr Eglwys at ryfel ymhlith lliaws o faterion eraill mewn casgliadau o'r rheolau a lywodraethai ei threfn a'i hymddygiad, megis Testament ein Harglwydd, a ddatganai na ddylid bedyddio milwr onid ymddiswyddai o'r lluoedd arfog, ac na ddylai Cristion ymuno a'r fyddin.

Sut y daeth ymlyniad yr Eglwys wrth ffordd Iesu o fyw i ben mewn perthynas â rhyfel? Darfu amdani yn chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif. Roedd yr Eglwys wedi tyfu'n fawr ac wedi ymledu, llanwai llawer o'i haelodau swyddi cyhoeddus o bwys, peidiodd angerdd bywyd y cenedlaethau cynnar. Yna'r digwyddiad tyngedfennol.
Trowyd yr Ymerawdwr Cystennin ei hun - Cystennin Fawr a fu farw yn y flwyddyn 337-yn rhyw fath o Gristion, er iddo barhau, meddir, i addoli'r haul. Dan ei lywodraeth ef gwnaed mwy na goddef bodolaeth yr Eglwys a pheidio a'i herlid; hybwyd ei thwf fel sment i ddal yr Ymerodraeth ynghyd. Datblygodd Cristnogaeth yn grefydd ymerodrol. Daeth bod yn Gristion yn dderbyniol, hyd yn oed yn ffasiynol.

Felly y terfynodd y cyfnod arwrol pan oedd bywyd corff cyfan yr Eglwys ynghlwm yn dynn wrth ei chred yn efengyl cariad Iesu ar gwestiwn rhyfel. Yn fuan wedyn, daeth yn arfer cario'r Groes o flaen lluoedd arfog wrth ymdeithio i ladd y gelyn mewn rhyfel.
Mae'n arwyddocaol mai teitl y gyfrol safonol ar yr apostasi mawr yw *The Fall of Christianity.*

Eithr ni ddarfu'n llwyr am basiffistiaeth Gristnogol. Mae bywyd Martin o Tours, Cristion mwyaf y cyfnod o bosibl, yn dyst o hynny. Roedd Martin mewn cyffyrddiad personol agos â Magnus Maximus, Macsen Wledig, Cristion a wnaeth y Cymry'n gyfrifol am eu hamddiffyniad cyn ymadael â Phrydain yn y flwyddyn 383, ac â gwraig Maximus. Mae hynny'n ffaith sicr. Byddai'n hyfryd meddwl bod sail hanesyddol i'r traddodiad rod Maximus yn briod a'r Dywysoges Elen, a'i bod hi a'i dau fab, Cystennin a Pheblig, wedi dychwelyd i Gymru ar ôl11add ei gwr, a chymryd eu lle ymhlith y saint Cymreig cynharaf oll. Milwr oedd Martin, ond pan gafodd dröedigaeth at Gristnogaeth, ddeugain mlynedd ar ôl tröedigaeth Cystennin Fawr, bu'n rhaid iddo gefnu ar ei alwedigaeth. Wrth apelio at yr Ymerawdwr Julian am ryddhad o'r fyddin dwedodd, 'Hyd yn hyn fe' ch gwasanaethais fel milwr. Gadewch imi rod yn awr yn filwr Duw ... Milwr Crist wyf fi. Nid yw'n gyfreithlon imi ymladd.' Er cael ei garcharu cafodd ei ryddhau'n fuan. Sefydlodd fynachlog fawr genhadol a bu'n cenhadu'n egniol ei hunan. Asetig oedd natur ei fynachaeth a'i fywyd ef a'i fynaich. Yn hyn ac yn ei genhadu ymdebygai Dewi Sant iddo, yn enghraifft o ddylanwad ysgol Martin o Tours ar Gymru.

Mynach amlwg arall a ddylanwadodd ar yr Eglwys Geltaidd oedd Vitricius. Mewn llythyr ato dywed ei gyfaill Paulinus, esgob Nola yn Yr Eidal rhwng 409 a 431, yntau wedi troi o'r fyddin at yr Eglwys, 'Rydych wedi taflu arfau gwaed i ffwrdd, ac, megis, wedi gwisgo arfau heddwch. Rydych yn gwawdio eich arfogi â'r cleddyf gan eich bod wedi eich arfogi â Christ.' Ac onid milwr fu Illtud cyn ei dröedigaeth? Fe'i galwyd er, a fu'n gapten gosgordd frenhinol, yn Illtud Farchog.

Eithr cyn bo hir Cristnogaeth oedd y mwyaf gwaedlyd o'r crefyddau. Ystyriwch fan ac amgylchiadau cyfansoddi'r emyn gwych

In the cross of Christ I glory
Towering o'er the wrecks of time.

Fe'i sgrifennwyd ym moroedd Tseina gan brif lyngesydd y llynges Brydeinig yn ystod rhyfel Prydain, y Rhyfel Opiwm, 1839-42, a ymladdwyd i orfodi opiwm ar Tseina. Roedd hwn yn un o'r 78 rhyfel a ymladdodd Prydain yn ystod y ganrif ddiwethaf, oll dan fendith yr Eglwys Gristnogol. Er i Gristnogaeth ymledu trwy Gymru yn gynnar iawn mewn modd trawiadol o heddychlon, ai canrifoedd meithion heibio cyn y ceid adlais ymhlith y Cristnogion yng Nghymru o agwedd yr Eglwys Fore at ryfel.

## Heddychwyr Cristnogol Cyntaf Cymru: y Crynwyr

Gwelir egin pasiffistiaeth Gristnogol ym Morgan Llwyd, y Piwritan athrylithgar a weddïai ‘ar i Dduw roddi heddwch nefol a llawnder gwirionedd i'r Cymry tirion . . . ac i'r amser frysio pan na bo rhyfel yn un lle ond ym mhyrth Satan a'i angylion . . . Dyma'r ddamnedigaeth fod dynion yn caru'r tywyllwch yn fwy na'r goleuni ynddynt ac yn mynd felly yn yrroedd i'r lladdfa.'

Credai Morgan Llwyd yn angerddol fod Crist yn bresennol ymhob credadun. Rhannai athrawiaeth y goleuni mewnol a'r Crynwyr, ac yn y flwyddyn 1653 danfonodd ddau o'i ddisgyblion i ganolfan y Crynwyr yn Sir Gaerhirfryn. Un o'r ddau oedd John ap John, apostol blaenaf y Crynwyr yng Nghymru. Efe fu ar law dde George Fox, arweinydd mawr y Crynwyr, pan aeth hwnnw ar daith drwy Gymru. Teithiodd John ap John yn ddiflino drwy Gymru benbaladr, gan ei fwrw'n fynych i garchar, megis yn Abertawe, Dinbych-y-pysgod ac yng Nghaerdydd, lle y gosododd yr achos ar seiliau cedyrn wedi iddo ennill cefnogaeth nifer o ŵyr dylanwadol.

Roedd George Fox eisoes wedi ei argyhoeddi na ellid cysoni efengyl Crist a thrais a rhyfel. Cyhoeddodd ym 1650, flwyddyn ar ôl dienyddio'r brenin Charles, nad oes modd i Gristion gyfiawnhau defnyddio cledd i ladd gelyn. Roedd rhyfel, meddai, yn groes i fywyd a dysgeidiaeth Crist.
Ymhen degawd mabwysiadodd y Crynwyr fel corff heddychiaeth Gristnogol. Tynnodd yr Athro Geraint Jenkins sylw at ddatganiad a gyflwynodd George Fox ar eu rhan i'r brenin Charles 11 yn y flwyddyn 1661, flwyddyn ar ôl iddo esgyn i'r orsedd, mai efengyl tangnefedd oedd dysgeidiaeth Crist a bod y Crynwyr yn ymwrthod a rhyfel a phob trais. Ni chefnasant ar y safbwynt hwn erioed.
Tystiodd Thomas Wynne o Gaerwys i gadernid eu hymlyniad wrth Dywysog Tangnefedd mewn traethawd a gyhoeddodd ugain mlynedd yn ddiweddarach. Anogodd Wynne, a aeth i America gyda William Penn, ei gyd-Gymry i fynd ati i sefydlu cymdeithas ddidrais lle na

wisgai neb arfau nac ymddiried mewn 'braich o gnawd' .Mynnai mai caru gelyn a throi cleddyfau'n geibiau a gwaywffyn yn grymanau oedd dysgeidiaeth Crist.

Ymledodd y Crynwyr trwy rannau o Gymru. Buont yn arbennig o luosog ym Meirionnydd, Maldwyn, a Maesyfed a oedd yn Gymraeg ei hiaith bryd hynny, ond fe'u ceid ymron ymhob un o siroedd Cymru. Eithr yn chwe-, saith- ac wythdegau'r ail ganrif ar bymtheg dioddefent, gydag Anghydffurfwyr o bob math, erledigaeth egr. Y Crynwyr, a ymwrtbodai a gorchymyn y wladwriaeth i ryfela, a ddioddefai waethaf. Cafodd llawer iawn, gan gynnwys Thomas Wynne, eu carcharu. Atafaelwyd eiddo a oedd yn hanfodol i'w bywoliaeth a'u bywyd teuluol, megis eu defaid a'u gwartheg.

Cawsant gamdriniaeth gorfforol enbyd, heb daro nôl. Dalient i wynebu'r erledigaeth a chariad di-drais. Disgrifir yr erledigaeth ddidostur yn hunangofiant Richard Davies o'r Cloddiau Cochion ym Maldwyn, gwr a gyhoeddodd efengyl tangnefedd am banner canrif. ond parhau a wnaent i wrthod archiad y wladwriaeth i ladd cyd-ddyn. Yn nau ddegawd alar y ganrif, fodd bynnag, fe ymfudodd tua dwy fil o Grynwyr Cymreig i America rhag yr erledigaeth. Aeth eu banner i Bennsylvania, lle y glynent yn ffyddlon wrth eu gwerthoedd a'u gweledigaeth dan arweiniad William Penn, a ddaeth i gyffyrddiad a nhw ym 1681, genhedlaeth ar ôl taith efengylu gyntaf John ap John. Ceir banes y trafodaethau rhwng Penn a'r Cymry, a brynodd 40,000 o aceri ym Mhennsylvania, yn hunangofiant Richard Davies. o Feirionnydd yr ymfudodd y fintai gyntaf ym 1682. Colled enbyd a dlododd fywyd Cymru fu allfudo pobl o feddwl a chymeriad mor gryf dair canrif yn ôl. Yn ogystal â'r Crynwyr ymfudodd y cyfan o'r Bedyddwyr Arminaidd, a phrynodd y Bedyddwyr Calfinaidd Cymreig hwythau 30,000 o aceri ym Mhennsylvania lle'r oedd digon o Gymry yn nechrau'r ddeunawfed ganrif i gynnal masnach cyhoeddi llyfrau Cymraeg.

Er i'r dylifiad o Gymru ysigo nerth y Crynwyr, y gweddill bach a adawyd a gadwodd draddodiad heddychiaeth Gristnogol yn fyw, yn y ddeunawfed ganrif. Eithr darfu am egni'r dystiolaeth dros heddwch, a phrin y gellir sôn am fudiad heddwch am dair cenhedlaeth a mwy. Peidiwyd a meddwl am ryfel fel pechod cymdeithasol mawr. Dylanwad y Chwyldro Ffrengig a barodd i gwmni o wyr lliwgar, megis Iolo Morganwg, Tomos Glyn Cothi a Jac Glan-y-gors ymgyrchu dros heddwch am gyfnod byr. Heddychwr Cristnogol mwyaf y cyfnod oedd Morgan John Rhys o Gwm Rhymni. Er nad oedd yn gwbl ddigymrodedd ganai ddatgan, 'Gwell iti ddioddef carcharu na chymryd arfau creulondeb yn dy law i ddifetha dy gyd-greaduriaid . .. Y mae ymddygiad y Crynwyr yn fwy cyson a chrefydd Crist mewn perthynas i ryfeloedd nag un blaid arall.' Ac eto meddai, 'Wrth sylwi ar greulondeb rhyfeloedd, a chydymdeimlo a'r trueiniaid sy'n dioddef, yr ydym yn barod i ddymuno bod yr hall fyd yn Gwaceriaid.' Gwelodd y gŵr mawr hwn y gwirionedd mai 'plentyn cyfiawnder yw heddwch'. Dyna nodyn y byddai heddychwyr y dyfodol yn ei daro byth a hefyd.

## Y Ganrif Ddiwethaf

Nid yw'n syndod mai o dras y Crynwyr yr oedd yr heddychwyr Cristnogol cyntaf a gododd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn wir mai Crynwr oedd heddychwr Cymreig mwyaf nodedig ail banner yr ugeinfed ganrif. Pan sefydlwyd y Gymdeithas Heddwch yn Llundain ym 1816 (y gyntaf yng ngwledydd Prydain), gyda'r nod o lwyr ddiddymu rhyfel, ei hysgrifennydd cyntaf oedd Evan Rees, mab i Grynwr o Faldwyn. Yng Nghastell-nedd yr oedd yn byw; a Joseph Tregelles Price, yntau'n ddiwydiannwr yng Nghastell-nedd ac yn Grynwr, oedd prif sefydlydd y Gymdeithas. Byddai ei changen yng Nghastell-nedd ac Abertawe yn dosbarthu llenyddiaeth heddwch trwy Gymru, gan gynnwys llyfryn gan Evan

Rees, *Sketches of the Horrors of War,* a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas, y crynhodd yr awdur ei feddwl am ryfel ynddo. Mae'r llyfryn, sy'n ymdrin â natur rhyfel o'r safbwynt Cristnogol, yn pwysleisio nad Des a wnelo ysbryd Crist ddim oll a hunanoldeb ac anfoesoldeb rhyfel. Ei gasgliad yw fod rhyfel 'yn groes ym mhopeth i ddysgeidiaeth Tywysog Tangnefedd'. Fel Tadau Cristnogol yr Eglwys Fore, a llawer o heddychwyr ar eu hol, fe'i cythruddwyd gan y gwahaniaeth agwedd tuag at lofruddiaeth mewn bywyd sifil a lladd mewn rhyfel:
'Rboddir nod gwaradwydd ar y sawl a lofruddia, a chondemnir ef i farwolaeth warthus, ond gogoneddus ac anrhydeddus yr ystyrir y sawl a laddo fyrddiynau mewn rhyfel. Wrth ba un o safonau rheswm, dynoliaeth neu grefydd y cyfiawnheir y fath anghysondeb?'

Bu Evan Rees farw'n ŵr ifanc 31 oed, ond parhaodd y Gymdeithas Heddwch am 120 o flynyddoedd. Am yn agos i gant o'r blynyddoedd hynny Cymry a ddaliai'r ysgrifenyddiaeth. Y mwyaf o'i hysgrifenyddion oedd Henry Richard, gweinidog gyda'r Annibynwyr a mab i weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nhregaron, a ddaeth yn ffigur Ewropeaidd trwy ei waith dros heddwch. Cymru a heddwch oedd dau angerdd mawr ei fywyd. Bu'n amddiffynnydd effeithiol yn wyneb yr enllib gwarthus ar Gymru yn y Llyfrau Gleision a gyhoeddwyd ym 1847. Y flwyddyn ganlynol penodwyd ef yn ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch. Daliodd ati'n ddygn hyd 1884, gan ennill y teitl Apostol Heddwch.

Dygodd ei grwsâd dros heddwch ef i Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Bafaria, Awstria a'r Eidal, a threfnodd bedair cynhadledd heddwch fawr ym Mrwsel a Llundain, Paris a Frankfurt. Cyhoeddodd, medd Gwyn Alf Williams, fod rhyfel 'nid yn unig yn ddrudfawr, yn greulon ac yn farbaraidd, ond hefyd yn hanfodol ac yn dragwyddol anghristnogol'. Ychwanega fod heddychiaeth Henry Richard yn ddyneiddiol yn ogystal â Christnogol a bod ei goblygiadau gwleidyddol yn rhai radical dros ben, yn wir yn chwyldroadol.

Rhyfedd meddwl mai o drwch blewyn y methodd cynnig syfrdanol Richard yn y senedd a gondemniai anallu Tŷ'r Cyffredin i lunio polisi mewn materion yn ymwneud a rhyfel a heddwch a chysylltiadau cydwladol. o chwe phleidlais yn unig y methodd. Am iddo fethu parhaodd yr anallu seneddol hwn hyd heddiw: medrai llywodraethau Llafur a Thorïaidd benderfynu meddu ar arfau niwclear, ac ychwanegu'n arswydus at eu nifer a'u nerth, heb ymgynghori dim a'r senedd. Ond llwyddiant mawr Henry Richard oedd perswadio llywodraeth Gladstone i argymell gwledydd Ewrop i gwtogi ar eu harfau. o fewn deuddeng mlynedd i'w farw ym 1888 etholwyd heddychwr Cristnogol mawr arall i gynrychioli Merthyr Tudful yn y senedd, Keir Hardie, sylfaenydd ac arweinydd y Blaid Lafur Annibynnol.

Serch bod ton o ysbryd jingoistaidd yn golchi dros y wlad ar y pryd, gwrthwynebodd Henry Richard ryfel y Crimea. Ymunwyd ag ef yn hyn gan Gwilym Hiraethog, golygydd Yr Amserau, a Samuel Roberts (S.R.) a ddeuai o'r un fro ag Evan Rees. Gweinidogion gyda'r Annibynwyr oedd y ddau arweinydd hyn yn yr ymgyrch genedlaethol a chydwladol dros heddwch. Fel radical Cristnogol, a'r elfen wleidyddol yn amlwg yn ei heddychiaeth, y meddyliai Hiraethog am ryfel. Sylfaenwyd heddychiaeth S.R., er ei rod yntau hefyd yn ddiwygiwr radicalaidd, yn llwyr ar ei grefydd. Yn ei farn ef yr oedd 'pob gweithred o derfysg a dinistr yn groes i ysbryd Cristnogaeth'. Disgrifiodd gefnogi Cristnogaeth trwy ryfela fel 'y gabldraeth dduaf ar Gristnogaeth a lifodd dros wefusau coelgrefydd'. Y safbwynt hwnnw a'i cymhellodd, er mor fawr ei gas at gaethwasanaeth, i wrthwynebu'r Rhyfel Cartref yn yr Uno I Daleithiau. Cyhoeddai yn ddifloesgni, 'Nid oes bawl gan Gristion i fod yn filwr.' Efe oedd heddychwr mwyaf digymrodedd y ganrif. Bu'n gynrychiolydd yn y gynhadledd heddwch fawr yn Frankfurt; darlithiai ar ran y Gymdeithas Heddwch; pregethai achos

heddwch ar hyd ei oes; a sgrifennai o'i blaid yn Y Cronicl, y cylchgrawn a sefydlodd ym 1843 ac y gwerthwyd, meddai, dros filiwn o gopïau ohono mewn deuddeng mlynedd.

Un a wrthwynebodd ryfel ac imperialaeth â'i holl galon oedd Michael D. Jones, y cyntaf i ymdrechu 'n fwriadus i gynnal cenedligrwydd Cymru. Credai er, yn groes i'r fam gyffredin, rod gwledydd a'u llywodraethau o dan reolaeth y ddeddf foesol yn union fel yr oedd unigolion. 'Pan mae personau o dan y gwaharddiad "Na ladd"," meddai, 'credaf fod llywodraeth yn gwneud yn iawn wrth saethu a chrogi pawb a wrthwyneba eu hewyllys i helaethu eu hawdurdod. Pan ddywed y ddeddf foesol "Na ladrata" , credaf fod gan lywodraeth ryddid i ladrata tiroedd a theyrnasoedd faint a fedro hi . . . Credaf innau mai yr un rheol foesol sydd i bawb.' Gwnaeth Cyprian yr un pwynt yn y drydedd ganrif, ond y mae dull Michael D. Jones yn fwy coeglyd. Os yw dyn am ladd heb ei gosbi, meddai, y ffordd yw lladd yn enw Llywodraeth. Caiff ladd wedyn nid yn unig yn ddigerydd: caiff ei dalu am ladd, yn enwedig os helpa i ladd miloedd mewn rhyfel.

Nid oedd Michael D. Jones ar ei ben ei bun wrth goleddu'r gred fod y foeseg Gristnogol yn rheoli'r wladwriaeth yn ogystal fi'r person unigo!. Dyna fam T. Williams, Clydach Vale, yn ei gyfrol Crefydd a Gwleidyddiaeth (1888). 'Nid yw gweithred ddrwg yn newid dim ar ei chymeriad,' meddai, 'er iddi gael ei gorchymyn gan yr awdurdodau uchaf mewn gwlad, a sêl frenhinol wrthi ...Cyfarwyddyd Iesu Grist gyda golwg ar hyn oedd yr eiddo Cesar i Cesar a'r eiddo Duw i Dduw. Nid oes hanes am ddinasyddion Cristnogol goleuedig yn cael llawer o drafferth i wahaniaethu rhwng eiddo Cesar ac eiddo Duw.'

Pe credai'r Eglwys y dylai llywodraeth ufuddhau i'r ddeddf foesol a waharddai ladd, ganasai ei dylanwad fod yn enfawr ar y Brydain Fawr a ymladdodd 78 rhyfel yn y ganrif ddiwethaf. Eithr nifer fechan iawn o aelodau'r eglwysi oedd yn heddychwyr. At ei gilydd llawforynion y wladwriaeth a'i Hymerodraeth fu'r eglwysi. Parhâi esgobion i fendithio llongau ac arfau rhyfel; cai balled catrodau milwrol le anrhydedd yn yr eglwysi; a phan ddaeth y Rhyfel Mawr bu rhai gweinidogion Ymneilltuol yn prysur recriwtio dynion i'r lluoedd arfog.

## Y Rhyfel Byd Cyntaf

Er bod Lloyd George ymhell o fod yn heddychwr Cristnogol ni bu gweithred fwy anrhydeddus yn ei fywyd na'i wrthwynebiad dewr i Ryfel y Boeriaid yn nechrau'r ganrif hon. Bu arweinydd plaid arall, fodd bynnag, Keir Hardie, a enillodd le yn hanes Cymru ar ôl ei ethol yn aelod dros Ferthyr Tudful, yn heddychwr Cristnogol cadarn. Ni welodd gwleidyddiaeth Gymraeg gymeriad rhyfeddach.
Yn blentyn anghyfreithlon heb erioed gael diwrnod o addysg ysgol, dechreuodd weithio dan ddaear yn wyth oed. Priododd ei fam yn ddiweddarach a meddwyn, a chael pump rhagor o blant, gan fyw mewn bwthyn bach mewn tlodi enbyd. Anffyddwyr oedd y tact a'r ram. Amlygir doniau meddwl a chymeriad Hardie gan ei ymlyniad wrth Gristnogaeth yn llanc ifanc dan ddylanwad gweinidog gyda'r Annibynwyr. Bu'n heddychwr Cristnogol ar hyd ei Des. Fel ei gyfaill Jean Jaures, arweinydd sosialwyr Ffrainc a lofruddiwyd ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf, gobeithiai Hardie yr ataliai gweithwyr y gwledydd ryfel trwy wrtbod mynd i ryfela yn erbyn ei gilydd a chyhoeddi streic gyffredinol. Cwbl arall fu'r hanes. Pan ddaeth Hardie yn nechrau'r rhyfel i Aberdâr, a oedd yn rhan o etholaeth Merthyr Tudful, i alw am gallineb a thrugaredd, rhwystrwyd ef rhag siarad gan dof a waeddai sloganau rhyfelgar ar ei draws a chanu '*God save the King'* a *'Rule Britannia'*. Adroddodd ei fab yng nghyfraith, Emrys Hughes (disgynnydd John Hughes, Pontrobert,

mentor Ann Griffiths), iddo ddod adref o'r cyfarfod a'i galon wedi ei thorri. Nid ymadferodd. Bu farw'n fuan, ond nid cyn iddo ddweud, 'Pe bawn ugain mlynedd yn iau credaf y gadawn gartref, gwraig a phlant, i bregethu holl Efengyl Iesu Grist.'

Her gwallgofrwydd hunan ddinistriol y Rhyfel Byd Cyntaf a orfododd y Cristnogion oll i amlygu eu hagwedd at ryfel a thrais.

Ymateb y mwyafrif llethol oedd rhoi cefnogaeth frwd i'r wladwriaeth a'r lladdfa gwbl ddiangen. Ymunodd Cymry mor fawr â Syr O. M. Edwards a Syr John Morris-Jones a Syr Henry Jones a'r llu  o weinidogion yr efengyl o bob Eglwys ac enwad a recriwtiai ŵyr ifainc i'r lluoedd arfog i ladd eu cyd-ddynion yn y gyflafan fwyaf barbaraidd a welwyd erioed, ond a ystyriwyd yn rhyfel cyfiawn a sanctaidd. Adroddir yr hanes yn llyfr Dr. Dewi Eirug Davies, Byddin y Brenin. Daliai'r Parchedig Gyrnol John Williams nad oedd a wnelo'r Bregeth ar y Mynydd a rhyfel: 'Nid Des a wnelo ei ddysgeidiaeth Ef yn uniongyrchol, ond a pherthynas unigolion a'i gilydd, ac yn arbennig perthynas ei ddisgyblion a'i gilydd.' Mae'n dilyn gan hyn nad yw cymhwyso dysgeidiaeth Iesu Grist at gymdeithas er sicrhau cyfiawnder, yn rhan hanfodol o genhadaeth yr Eglwys Gristnogol.

Dangoswyd arwriaeth ac anhunanoldeb i'w ryfeddu gan lu mawr o'r milwyr mewn achos annheilwng. Ysigwyd bywyd a gwerthoedd Cymru i'w gwreiddiau; parhaodd yr effeithiau drwy gydol y cenedlaethau canlynol. Seisnigwyd y genedl dan don anferth o Brydeindod. Clwyfwyd yr Eglwys Gristnogol yn ddwfn, onid yn farwol yn achos yr enwadau ymneilltuol Cymraeg. Nid ydynt byth wedi ymadfer ar ôl eu hapostasi mawr.

Buasai effaith y rhyfel ar yr Eglwys hyd yn oed yn waeth oni bai am safiad a thystiolaeth cwmni gloyw o heddychwyr Cristnogol, gweinidogion ymneilltuol gan mwyaf, na welwyd erioed eu rhagorach. Perthynent i Gymdeithas y Cymod a sefydlwyd yng Nghaer-grawnt yn Rhagfyr 1914 ac a ymledodd yn fuan i lawer gwlad. Crynhoir credo'r Gymdeithas mewn brawddeg a geir yn ail lythyr Paul at y Corinthiaid: 'Yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun.' Gwelwn ei hedyn yng nghydgyfarfod Crynwr o Sais, Henry Bodgkin, a Lwtheriad Almaenaidd, Siegmund Shultze, yng ngorsaf rheilffordd Cwlen yn yr Almaen yng Ngorffennaf 1914, wythnos neu ddwy cyn dechrau'r Rhyfel Byd. Bu Shultze yn gaplan j'r Kaiser. Wrth ymadael a'i gilydd ac ysgwyd llaw, dywedasant, 'Yr ydym yn un yng Nghrist ac ni fedrwn byth ryfela yn erbyn ein gilydd. '

Cymry Cymraeg oedd ysgrifennydd ac ysgrifennydd cynorthwyol cyntaf Cymdeithas y Cymod. Richard Roberts o Flaenau Ffestiniog, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd yr ysgrifennydd. Pan oedd yn weinidog gyda'r Mudiad Ymosodol yn Nhreharris, Merthyr Tudful, yn niwedd y ganrif o'r blaen, rhoddwyd gwahoddiad i Keir Hardie ddod yno i annerch cyfarfod o'r Blaid Lafur Annibynnol, y tro cyntaf i Hardie ddod i Ferthyr. Arhosodd Hardie yn llety Richard Roberts, a gadeiriodd y cyfarfod, a chysgu yn ei wely. Cafodd ei ddiswyddo o'i eglwys mewn canlyniad. Bu'n weinidog yn eglwys Gymraeg Willesden Green ac eglwys Bresbyteraidd Crouch Hill yn Llundain wedyn, ac ar ôl cyfnod fel ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod symudodd i Eglwys enwog y Pererinion yn Efrog Newydd. Bu wedyn yn Llywydd Eglwys Unedig Canada. Sgrifennodd saith ar hugain o lyfrau, gan gynnwys un am Robert Owen a gyhoeddwyd gan O. M.Edwards yng Nghyfres y Fil.

Richard Roberts oedd prif sefydlydd Cymdeithas y Cymod. Fel hyn y digwyddodd: ar Sul cyntaf y rhyfel yn ei gapel fe'i trawyd gan absenoldeb cwmni o ŵyr busnes Almaenaidd

ifainc a fyddai'n arfer dad i'r gwasanaeth. Arswydodd wrth feddwl y ganent hwy ac aelodau eraill o'r gynulleidfa, a fu'n gweddïo gyda'i gilydd ychydig ynghynt, fod yn lladd ei gilydd cyn hir ar faes y gad. Gwyddai'n sydyn ac yn sicr na fedrai ef fel gweinidog Cristnogol gefnogi'r rhyfel. Gwahoddodd rai o'i gymrodyr ym Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr i gyfarfod yn ei gartref. Yn eu plith yr oedd Henry Bodgkin a G. K. A. Bell, caplan Archesgob Caer-gaint, a ddeuai'n Esgob Chichester. Penderfynodd Roberts a Bodgkin wedyn alw cynhadledd i drafod Cristnogaeth a rhyfel. Daeth 130 ynghyd i'r Arts Theatre yng Nghaer-grawnt. Yno y sefydlwyd Cymdeithas y Cymod.

Pan fu Richard Roberts farw ym 1945 danfonwyd ei lwch yn ôl i Gymru. Arweiniodd George M. Ll. Davies wasanaeth byr ar ochrau creigiog Pared y Cefn Hir sy'n wynebu Cader Idris, hoff fan Richard Roberts, cyn i Dan Thomas, ei frawd yng nghyfraith, wasgaru ei lwch yno.

Mae'n werth nodi fod George Lansbury, mab i Gymraes, a ddaeth yn arweinydd y Blaid Lafur- ail arweinydd y blaid honno i fod yn heddychwr Cristnogol -ymhlith aelodau cynharaf Cymdeithas y Cymod. Cyfeiria George M. Ll. Davies at Lansbury mewn cynhadledd a gynhaliodd Cymdeithas y Cymod yn Nhŷ'r Crynwyr yn Llundain yn ystod y rhyfel. Dan anogaeth papurau gorryfelgar fel John Bull dringodd milwyr a morwyr dros y pyrth i ruthro ar y cyfarfod. Apêl George Lansbury am ffyddlondeb i Grist, a thawelwch rhyfedd yr hen Grynwyr, meddai George Davies, a gadwodd yr heddychwyr yn ddianaf nes egluro i'r terfysgwyr wir natur y cwrdd.
Yr hynod George Maitlond Lloyd Davies, wŷr i John Jones, Talysarn, oedd ysgrifennydd cynorthwyol cyntaf Cymdeithas y Cymod. Richard Roberts a ddywedodd amdano:

*It is impossible to describe George Davies without recourse to superlatives. When he came into my office unannounced, I could think of nothing that described the effect he had on me save some superlative like 'the sun in splendour' . What he meant to us while he was with us can never be told. .. Of all the people in the Fellowship of Reconciliation, George Davies was perhaps the most remarkable.*

Mewn ysgrif amdano ar ôl ei farw dwedodd y Canon Charles Raven, un o heddychwyr arbenicaf ei ddydd,

*He carried about with him an atmosphere of quietness ond friendship, so that his presence acted as a restraint upon the aggressive ond an encouragement to the shy. Often when he arrived at a meeting the effect of this quality became immediately apparent; faced with the condour ond sympathy of his eyes, the folks forgot their self-concern, ond were shamed out of their dislikes even though he seemed to do or say nothing.*

Roedd George Davies yn ŵr busnes effeithiol a benodwyd yn 27 oed yn rheolwr cangen Banc Martins yn Wrecsam (yn Wrecsam y sefydlwyd cangen Gymreig gyntaf Cymdeithas y Cymod, ac nid damwain mo hynny). Roedd yn y swydd honno pan ymunodd yn 1911 a'r Royal Welch Fusiliers, ac ef, o bawb, a'u cynrychiolai yn arwisgiad y Tywysog George yng Nghaernarfon yr un flwyddyn. Ddeunaw mis yn ddiweddarach fe'i trawyd gan yr argyhoeddiad arswydus ei fod wedi bradychu Crist wrth ymbaratoi i ladd dynion.

Am fisoedd llethwyd ef gan argyfwng ysbrydol dwfn. Pari esgynnodd o'r pydew yr oedd wedi penderfynu mai ufudd-dod i Grist a gai reoli ei fywyd fyth wedyn. Ei ufudd-dod i Grist yw gogoniant ei fywyd rhyfeddol. Ymadawodd a'r fyddin ac a'r banc.
Efe a ffeindiodd swyddfa i'r F.O.R. yn Red Lion Square, Llundain. Pan aeth i weld cynrychiolydd y ffyrm a osodai'r stafelloedd cyfaddefodd yn agored wrtho fod y mudiad braidd yn amharchus. *'You see,'* meddai, *'it believes in taking Christianity seriously, even in time of war.' 'Well that seems pretty' armless,'* meddai'r cocni o gynrychiolydd, a chafwyd y stafelloedd.
Treuliodd George Davies y rhan fwyaf o'r cyfnod rhwng 1916 a 1919 mewn carcharau, gan gynnwys Dartmoor, ond bu hefyd yn torri cerrig ar y ffordd rhwng Llanwrda a Phumsaint. Cyn mynd yno cawsai gyngor yn Dartmoor gan warchodwr o Wyddel ar y ffordd iawn i donni cerrig. Roedd e'n defnyddio llawer gormod o rym wrth eu torri. Meddai'r Gwyddel caredig, *'No, no, sonny, not like that at all. You just brings the bloody' ammer up and lets the Lord God bring it down.'*

Bedair blynedd ar ôl ei ryddhau o garchar ysgytiwyd y sefydliad Prydeinig pan etholwyd George Davies yn Aelod Seneddol dros Brifysgol Cymru, yr unig un a etholwyd i'r senedd erioed fel heddychwr Cristnogol. Ar hyd ei fywyd bu'n gweithredu cymod ac yn ei bregethu trwy wledydd Prydain a'r cyfandir. Ceisiai'n egniol liniaru sefyllfa druenus yr Almaenwyr ar ôl y rhyfel, pan gerddai newyn a chwyddiant ariannol gwallgof y wlad; bu draw yn yr Almaen yn aros gyda Siegmund Schultze; ac efe a chwalodd y gwahanfur a rwystrai drafodaeth rhwng Lloyd George a Llywodraeth Prydain a De Valera a'r Gwyddelod. Treuliodd ran alar y dauddegau a'r cyfan o'r tridegau yn cydweithio a'r Crynwyr ymhlith teuluoedd dynion di-waith ym Mryn-mawr, Rhosllannerchrugog a'r Rhondda, lle y bu'n byw mewn cut bach wrth gefn Maes -yr- Haf, sefydliad y Crynwyr yn Nhrealaw. Am chwe mis o'r flwyddyn rhoddai wyliau am wythnos i gant o lowyr di-waith mewn hen fragdy, a addaswyd i'r pwrpas ger glan mor Bro Morgannwg. Bellach, diogelwyd hanes bywyd yr heddychwr mwyaf a welodd Cymru yng nghofiant mawr E. H. Griffiths.

Bu George Davies yn bresennol yn yr hyn a alwodd yn Seiat fythgofiadwy o heddychwyr yn y Bermo yn gynnar ym 1916. Cyfeiria yn arbennig at bresenoldeb John Morgan Jones, gweinidog capel yr Hope, Merthyr Tudful, ysgolhaig, athronydd a phroffwyd nas cydnabyddwyd yn ei ddydd. Ganed mewn tyddyn ym Margam pan oedd yr ardal yn gwbl Gymraeg ei hiaith. Ar ôl bod yn weinidog am gyfnod aeth i Goleg Sant Ioan, Caer-grawnt, yn bedair ar ddeg ar hugain oed. Er y ganasai fod wedi disgleirio yn y byd academaidd, ei ddewis oedd treulio gweddill ei Des fel gweinidog ym Merthyr Tudful. Yn awdurdod ar broffwydi'r Hen Destament, deuai ysgolheigion Hebraeg i'w weld o'r cyfandir, a byddai Iddewon yn ei wahodd i draethu wrthynt ar ddoethineb y Rabbiniaid. Thema ei lyfr, Y Datguddiad o Dduw yn yr Hen Destament, yw mai'r proffwydi yw gwir gynrychiolwyr a dehonglwyr crefydd Israel. Ni thynnodd y llyfr fawr o sylw yng Nghymru, ond pan gyhoeddwyd ef yn Saesneg cafodd ganmoliaeth uchel gan rai o brif ysgolheigion y maes yn Lloegr ac aeth drwy nifer o argraffiadau. John Morgan Jones, arweinydd yr heddychwyr ym Merthyr Tudful, oedd y grym moesol yn y dref. Cymharodd George Davies gyfarfod a anerchwyd ganddo yno yn niwedd 1915 a chyrddau heddwch yn Llundain a Lloegr, lle byddai heddychwyr yn cwrdd o'r neilltu mewn cartrefi. Ym Merthyr gwrondawai'r dof o ddwy fil yn astud wrth i Lywydd y cwrdd, John Morgan Jones, egluro ei fod yno nid fel gŵr plaid (perthynai i'r Blaid Lafur Annibynnol) ond fel gweinidog Crist. Wedi hynny, meddai, bu Merthyr Tudful trwy gydol y rhyfel fel Meca i bererinion heddwch.

Genhedlaeth yn ddiweddarach, ar ôl yr Ail Ryfel Byd, bu heddychwr arall yn weinidog capel yr Hope, sef D. R. Thomas, a dystiodd yn ddiflino o blaid heddwch mewn anerchiadau a darlithiau, erthyglau a phamffledi.

Roedd y bobl a ymgasglodd yng nghynhadledd y Bermo o ansawdd arbennig, o gymeriad cadarn ac o allu meddyliol a doniau ysbrydol anghyffredin. Frill y gwelodd Cymru erioed ragorach cwmni. Yn eu plith roedd Puleston Jones, T. Gwynn Jones, Thomas Rees, Herbert Morgan, Peter Hughes Griffiths, y Barnwr Bryn Roberts, Cernyw Williams ac E. K. Jones, sefydlydd cangen Wrecsam o Gymdeithas y Cymod.
Roedd Puleston Jones, y llenor dall, yn un o'r 'seithwyr da eu gael' a sefydlodd Gymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen. Er gwaethaf ei ddallineb graddiodd yn y dosbarth cyntaf mewn hanes yng Ngholeg Balliol. 'Gellir ei gyfrif,' meddai John-Morris Jones, 'ymysg meistriaid iaith ei dadau heddiw, ac ymysg cymwynaswyr pennaf diwylliant a chrefydd Cymru trwy gyfrwng ei hiaith.' Gwelir gogwydd ei feddwl yn ei anerchiad ar Arglwyddiaeth Cariad, lle y pwysleisiodd gydag angerdd y gwahaniaeth rhwng dewis Cariad yn was a Chariad yn Arglwydd. Yr oedd y byd, meddai, yn eithaf bodlon derbyn cariad yn ei lle-yn y gegin, gyda'r plant, yn yr ysbytai, ond nid ym myd masnach a gwleidyddiaeth; diniweityn yn unig a ystyriai roddi i gariad le yn y cy1choedd hynny.

T. Gwynn Jones oedd y llenor mwyaf yn y gynhadledd. Fel y credai Keir Hardie y ganai gweithwyr Ewrop atal rhyfel, felly y credai T. Gwynn Jones, medd ei gofiannydd David Jenkins, y byddai nerth yr Eglwys Gristnogol yn ddigon i atal y gwleidyddion rhag arwain Ewrop i Armagedon. Gwnaeth Thomas Rees yr un pwynt yn Y Deyrnas pan ddwedodd, 'Gyrrwyd ni i gywilydd am na fu Cristnogaeth Ewrop yn wrthglawdd digonol yn erbyn y rhyferthwy dinistriol.' Pasiodd nifer o eglwysi Aberystwyth benderfyniadau yn erbyn rhyfel yn ei ddyddiau cyntaf ond dirywiodd y sefyllfa fel y go1chai ton rhyfelgarwch dros y dref. Un nos Sul offrymodd gweinidog y Tabernacl weddi a oedd, yn ôl T. Gwynn Jones, yn ddim gwell nag apêl barbariad i dduw ei lwyth am fuddugoliaeth i'w luoedd rhyfel. Pan godai'r gynulleidfa i ganu'r emyn nesaf cerddodd T. Gwynn Jones a'i deulu all ân o'r cwrdd. Yn ystod y blynyddoedd nesaf cafodd ei edict o achos ei gydymdeimlad honedig a'r Almaen, ond cai gysur o'r gyfeillach glos a dyfodd rhyngddo a George M. Ll. Davies ar bwys eu gwaith dros Gymdeithas y Cymod. Bu Silyn Roberts hefyd yn gyfaill da y medrai'r heddychwr ymosodol hwn agar ei galon iddo, fel hyn:

Diolch i Un a fu'n gweithio gwaith saer gynt-aed y gwŷr mawr i ddistryw i gyd, a'u masnach a'u moethau a'u hawdurdod i'w canlyn. Pan fwyf yn y cyflwr hwnnw, medrwn farw cyn daweled ag y cysgais erioed, medrwn, pe bai gan miliwn o wladwriaethau i'm lladd. Dyna'r fuddugoliaeth a ddug Crist i'r byd. Nid bob amser y daw'r fendith i ddyn, ond fe ddaw pan fo'r galw, yr wyf yn sicr.

Aelodau cynhadledd y Bermo a drefnodd y Gynhadledd Heddwch a gynhaliwyd yn Llandrindod ym Medi 1917, ond eu gweithred fawr oedd sefydlu cylchgrawn misol, Y Deyrnas, i hyrwyddo heddychiaeth Gristnogol. Y cylchgrawn hwn, meddai W. J. Gruffydd, 'fu yn un o'r achosion cryfaf na chollodd Cymru ei henaid yn hollol yn nydd y gwallgofrwydd mawr'. Thomas Rees, prifathro Coleg Bala-Bangor ac arweinydd yr Annibynwyr Cymraeg, a benodwyd yn olygydd, a Wyre Lewis, cyn-filiwr a gweinidog Bedyddiol glew, yn olygydd cynorthwyol. Nid oedd gan yr heddychwyr arweinydd cadarnach na Thomas Rees, gwr o ardal y Preseli a fu, fel D. J. Williams, yn gweithio fel gwas ffarm yn ddeuddeg oed ac wedyn fel colier. Enillodd ysgoloriaeth ym 1894 i fynd i Goleg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Yn ôl y Prifathro Viriamu Jones ef oedd y myfyriwr

ganuocaf a fuasai yno hyd hynny. Bu wedyn yn Rhydychen. Pan gafodd ei benodi'n brifathro Coleg Bala-Bangor, lle bu pob prifathro a'i dilynodd yn heddychwr, yr oedd eisoes yn adnabyddus am ei arweiniad ar Lwyfan ac yn y wasg ar addysg, rhyddid a chyfiawnder cymdeithasol.
O dan heddychiaeth Thomas Rees gorweddai'r hyn a ystyriai yn egwyddor Ymneilltuaeth, sef, fel y dwedodd mewn anerchiad nodedig yn Abertawe, 'realiti'r ysbrydol, a'i oruchafiaeth dros y materol a mecanyddol, ym mywyd y person unigol, yr Eglwys a'r genedl'. Yn haf 1913, dros flwyddyn cyn dechrau'r Rhyfel Mawr, cynigiodd benderfyniad a basiwyd gan Undeb yr Annibynwyr yn 'datgan gofid am gynnydd ysbryd rhyfelgar yn llysoedd Ewrop, ac yn condemnio Llywodraethau'r gwledydd am ychwanegu'n barhaus at adnoddau a threuliau rhyfel o dan ddylanwad y gwneuthurwyr arfau, am fod pob rhyfel yn groes i ysbryd Crist ac i fuddiannau gwerin y gwledydd'. Ei obaith oedd uno'r eglwysi yn erbyn rhyfel. Dywedodd dro ar ôl tro y deuai diwedd ar ryfel pan welai llywodraethau na allent ddibynnu ar gefnogaeth yr eglwysi.
Llythyr enwog Thomas Rees i'r Tyst, 30 Medi 1914, cyn sefydlu Cymdeithas y Cymod, oedd y datganiad grymus cyntaf yng Nghymru ar berthynas yr eglwysi a'r Rhyfel Mawr. Ynddo gofynnodd i ganlynwyr Crist,

wneud eu gorau i feithrin syniadau a theimladau a hyrwydda heddwch parhaol pan ddaw'r rhyfel i ben. Sonia rhywrai am ryfel i roi terfyn ar ryfel: ond gobaith of er yw hynny. Rheswm a chyfiawnder, gwirionedd a chariad yw unig sylfeini sicr heddwch . . . cred llawer ohonom nad oes le i ryfel o gwbl yn nhrefn yr efengyl . . . Fod rhyw anghysondeb gwreiddiol rhwng pregethu Efengyl y Groes a maddeuant a heddwch, a phregethu lladd a goresgyn a theyrnasu trwy rym cledd a magnel . .. nid hawdd fydd pregethu tangnefedd yn fuan ar ôl gyrru pobl i ryfela.

Torrodd storom uwch ei ben ar ôl cyhoeddi'r llythyr hwn. Datgysylltodd golygydd *Y Tyst* ei bun yn llwyr oddi wrtho. 'Ffug sancteiddrwydd yn ymylu ar deyrnfradwriaeth' a welodd golygydd Y Llan ynddo. Dioddefodd Thomas Rees fwy o'i edict nag odid un gweinidog o heddychwr, eithr ni leihaodd hynny ddim ar nerth ei dystiolaeth o blaid yr hyn sy'n dilyn ymlyniad wrth Dywysog Tangnefedd. 'Rhyfel yw'r ffurf amlycaf yn awr,' meddai yn rhifyn cyntaf Y Deyrnas, 'ar elyniaeth y byd at Deyrnas Dduw.' Erfyniai am beidio a chladdu'r foeseg Gristnogol yn ystod y rhyfel ac am beidio a gosod yr eglwysi at wasanaeth gwleidyddion. Am dair blynedd tystiodd mewn nodiadau golygyddol ac erthyglau o blaid y ffordd ragorach.

Ond arall oedd barn y mwyafrif o aelodau'r eglwysi; rhan anwahanadwy o'r gwallgofrwydd hunanladdus a feddiannodd y cenhedloedd oeddent hwy. Roedd llawer iawn mwy o weinidogion ac offeiriaid yn hybu ricriwtio gwyr ifainc i'r lluoedd nag oedd yn sefyll yn erbyn rhyfel. Noda Dr. Tudur Jones y niwl moesol a ddisgynnodd ar lawer datganiad gan grefyddwyr:

Yn yr un Undeb [Annibynwyr] ag y mynegwyd llawenydd am fod gwyr ifainc yn ymrestru yn y Fyddin, pasiwyd penderfyniad yn erbyn papurau Dydd Sul. Yn yr un modd ceid penderfyniadau cyson yn erbyn cynnal cyfarfodydd gwleidyddol ar y Sul ond dim ebwch yn erbyn cynhyrchu arfau rhyfel ar y Sul heb son am eu defnyddio ar y Sul. Aeth hidlo gwybed a llyncu camelod yn gamp mor gyffredin gan arweinwyr yr eglwysi fel nad oedd neb yn siŵr iawn pa rai oedd y gwybed a pha rai oedd y camelod.

Cylchgrawn a wrthwynebodd ryfel fel polisi hyd yn oed cyn *Y Deyrnas* oedd *Y Wawr*, a gychwynnwyd gan fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 'ym 1913. Cyfyng oedd ei gy1chrediad wrth reswm ond gwarantwyd ei ansawdd rhagorol gan gyfranwyr megis T. H. Parry-Williams, heddychwr trwy gydol y rhyfel, T. Gwynn lanes, Ambrose Bebb, Cassie Davies a Griffith John Williams, un o'r ysgolheigion mwyaf a welodd Cymru.
Erthygl yn beirniadu'r rhyfel a gyfrannodd D. J. Williams a fu'n achos i awdurdodau Aberystwyth roi pen ar Y Wawr ym 1917. Aeth D. J. i Aberystwyth ar ôl bod yn gweithio ar y tiT a than ddaear, ac o Aberystwyth aeth gydag ysgoloriaeth Meyricke i Rydychen. Bu'r cenedlaetholwr mawr hwn yn heddychwr Cristnogol ac yn aelod o Gymdeithas y Cymod trwy gydol ei fywyd. Amlygai ei ymdrech ddygn ar hyd ei oes dros Gymru a thros heddwch ei argyhoeddiad y 'claw bywyd o'r ymdrech dros fywyd'.

Er i Thomas Rees a nifer o heddychwyr a oedd yn y weinidogaeth, megis Puleston lanes, ddioddef erledigaeth, ni welsant y math o driniaeth greulon a gafodd gwrthwynebwyr fel George Davies nad oedd yn y weinidogaeth, na'r Thai a wrthwynebai ar dir gwleidyddol, megis Emrys Hughes, Gwenallt ac Ithel Davies. Treuliodd Emrys Hughes flynyddoedd mewn carcharau, deunaw mis mewn cell o clan Gastell Caernarfon. Yn ddiweddarach golygai Forward, y cy1chgrawn sosialaidd a gyhoeddwyd yn Glasgow. Priododd 11 merch Keir Hardie a bu'n byw yng nghartref Hardie yn Cumnock.Am chwarter canrif bu'n Aelod Seneddol dros Dde Swydd Ayr.

Disgrifiwyd profiad Gwenallt yn ystod y rhyfel yn ei nofel hunangofiannol *Plasau'r Brenin.* Dengys honna Sut y cymhellwyd ef i ymwrthod a rhyfel gan ei heddychiaeth Gristnogol, ei sosialaeth gydwladol a'i genedlaetholdeb Cymreig. Sosialydd o heddychwr oedd Ithel Davies hefyd. Disgrifir ei brofiadau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn ei hunangofiant. Ar ôl ei gymryd i garchar milwrol yr Wyddgrug gosodwyd Ithel Davies i weithio gyda charcharorion eraill mewn twll mawr yng nghornel y buarth. Pan wrthododd weithio bwriwyd ef i'r twll gan ringyll a daflodd gaib ar ei ôl. Parhaodd Ithel i wrthod gweithio. Neidiodd y rhingyll i lawr i'r twll a dyrnu ei gorff a'i wyneb, gan dorri asgwrn ei drwyn. Yna, bwriodd draed a chrimog coesau Ithel a phen y gaib. Wedyn fe'i tynnodd o'r twll a dyrnu ei asennau a'i feingefn. Pan syrthiodd yn erbyn mur, daliodd y rhingyll i'w fwrw yn erbyn y wal.

Mae mynegiant gwleidyddol yn hanfodol i heddychiaeth, canys yn y maes gwleidyddol y gwneir y penderfyniadau pwysicaf sy'n llunio natur cymdeithas. Y Blaid Lafur Annibynnol (ILP), plaid Keir Hardie, oedd sianel wleidyddol heddychwyr o bob math yn y cyfnod hwn. Sefydlodd rhai o'i haelodau ganghennau o Gymdeithas y Cymod a threfnent law er o gyrddau heddwch mewn capeli, megis yn Eglwys Hope Merthyr Tudful, Seion Cwmafan, Beulah Cwm-twrch, Carmel Pont-y-rhyl a Bryn Seion Craig-cefnparc. Eglwys od o gryf ei chefnogaeth i'r mudiad heddwch a'r ILP oedd Jerusalem Llansawel (Briton Ferry). Jerusalem a wnaeth Llansawel yn ail yn unig i Ferthyr Tudful feI canolfan gweithgarwch heddychwyr Cristnogol a gwleidyddol yn ystod y rhyfel. Noda Dr.Dewi Eirug Davies rai arweinwyr a anerchai'r cyrddau heddwch a gynhelid yno'n rheolaidd: G. M. Ll. Davies; Herbert Morgan; T. E.Nicholas; John Morgan Jones; Harris Hughes; W. J. Rees a Llewelyn Boyer, a fu'n weithgar eu dau yng Nghwm Tawe; Puleston Jones; acE. K. Jones, Peter Price a Wyre Lewis, tri a ymgyrchai yng nghylch Rhosllannerchrugog. Gweinidogion ymneilltuol oedd y rhain. Cyfrannodd eu gweithgareddau at brysuro'r broses o sianelu'r gydwybod gymdeithasol trwy'r Blaid Lafur yn hytrach na'r Blaid Ryddfrydol.

Un o'r lleygwyr amlycaf yng Nghymdeithas y Cymod a'r ILP oedd David Thomas, awdur *Y Werin a'i Theyrnas,* cefnogwr i fesur o ymreolaeth ar hyd ei fywyd. Ef a droes Tegla Davies at heddychiaeth. Perthynai T. Gwynn Jones, Gwenallt a D. J. Williams i'r ddau hefyd, ond yn wahanol i David Thomas a barhaodd yn aelod o'r Blaid Lafur, ymunasant a Phlaid Cymru ynghyd a chwmni lluosog o heddychwyr Cristnogol a fuasai'n aelodau o'r ILP, megis  Perry Ogwen lanes, Gomer Roberts, Ellis D. Jones, Llywelyn Huws, Dan Thomas a Waldo Williams a'i fam.

## Rhwng y Rhyfeloedd Mawr

Gwelai heddychwyr fel Thomas Rees yn glir flynyddoedd cyn i'r rhyfel ddod i ben mai amod heddwch parhaol yn y dyfodol oedd cytundeb heddwch cyfiawn. Siaradai dros yr heddychwyr Cristnogol oll wrth ddweud rod rhaid maddau i'r gelyn a 'bedyddio Ewrop yn y drydedd bennod ar ddeg o'r Epistol Cyntaf at y Corinthiaid'. ond yr hyn a gafwyd oedd Cytundeb dialgar Versailles. Nid ysbryd emyn cariad Paul a deyrnasai ym Mhalas Versailles ar ôl y rhyfel ond ysbryd yr ymadrodd a briodolir ar gam i Lloyd George, *'squeezing the orange till the pips squeak'* . Egwyddorion Versailles, meddai'r Deyrnas, oedd cosbi, dial, casáu, darostwng, ysbeilio, creu gelyniaeth a rhyfel parhaol.

Gwasgwyd pobl yr Almaen gyda chreulondeb didostur i dalu am y rhyfel. Mewn canlyniad syrthiodd yr economi yn adfeilion. Aeth arian yn ddiwerth. Mae gennyf gof plentyn am fwndeli o filoedd o Farciau Almaenig yn cael eu gwerthu ar Heol Holton, Y Barri, am geiniog y bwndel. Roedd miliynau lawer o ddynion allan o waith; mor ddiweddar â 1932, flwyddyn cyn i Hindenburg benodi Hitler yn Ganghellor, yr oedd saith miliwn yn ddi-waith. Rhwystrai blocâd enbyd fwyd rhag cyrraedd y wlad. Cymerwyd 5,0000 beiriannau rheilffordd i Ffrainc a 150,0000 wagenni fel na ellid dosbarthu'r bwyd a gynhyrchwyd. Dygwyd 140,000 o wartheg godro yno tra oedd miliynau o blant ac oedolion yn newynu. Gwaharddwyd pysgota yn y môr. Meddiannwyd llongau'r Almaen. Ysgubodd darfodedigaeth, teiffws a disentri drwy'r wlad gan ladd miliynau, yn arbennig o blant a phobl ifainc, llu o'r ifancaf ohonynt heb erioed weld diferyn o laeth. Cyfoddefwyd bod mwy o boblogaeth sifil yr Almaen wedi marw o ganlyniad i'r blocâd nag a laddwyd ar feysydd y gad yn y rhyfel ei hun.

Dioddefodd cymoedd glo Cymru yn sgil y polisi ffôl a dialgar hwn. Gorfodwyd yr Almaen i drosglwyddo ugain miliwn tunnell o lo yn flynyddol i Ffrainc a'r Eidal, gan ddifetha prif farchnadoedd glo Cymru a thaflu ugeiniau o filoedd o lowyr Cymru ar y clwt. Fe gyfoddefodd banciwr amlwg fod Prydain yn colli mwy trwy ddiweithdra dwy filiwn o'i gwyr nag a dderbyniai mewn iawndal gan yr Almaen.

Ni bu dim trafodaeth rhwng y Cynghreiriaid a chynrychiolwyr yr Almaen yng Nghynhadledd Heddwch Versailles. Gosodwyd yr Almaenwyr i eistedd wrth fwrdd ar wahân. Pan ddaeth y trafod i ben cyflwynodd Clemenceau gyfrol yn cynnwys y telerau heddwch iddynt. Cynhwysai'r Cytundeb gymal a'u gorfodai i dalu iawndal cwbl afresymol. Gosododd ddwy filiwn o Almaenwyr dan iau Gwlad Pwyl a thair miliwn dan Tsiecoslofacia, lle'r oedd mwy o Almaenwyr nag o Slofaciaid. Fwy diraddiol ac anghyfiawn na dim oedd y cymal a fynnai gan yr Almaenwyr gyffesu mai nhw'n unig oedd yn gyfrifol am y rhyfel. Rhoddwyd pythefnos iddynt benderfynu a arwyddent y Cytundeb, ond fe'u rhybuddiwyd y symudai byddinoedd y Cynghreiriaid drannoeth pe gwrthodent arwyddo, a daliwyd y llongau bwyd yn 61 rhag hwylio. Wrth ddatgan eu parodrwydd i arwyddo datganodd

Llywodraeth Werinol yr Almaen eu bod 'yn ildio i rym gorlethol, ond heb newid ein hargyhoeddiad fod anghyfiawnder y telerau heddwch yn ddigyffelyb'. Fel hyn yr heuwyd had y rhyfel byd nesaf.

Barn Philip Snowden, y Canghellor Trysorlys Llafur cyntaf, am Gytundeb Versailles oedd ei fod yn 'Ddyrnod angheuol i'r rhai a ddisgwyliodd i ddiwedd y rhyfel ddwyn heddwch. Nid Cytundeb Heddwch mohono ond datganiad newydd o ryfel.' Mor wir y gair.
Y ffenics a gododd o lwch Versailles oedd Hitler. Yn y driniaeth ddialgar a didostur a ddioddefodd cenedl fawr a galluog ar ôl y Cytundeb Heddwch y gwelwn wreiddiau'r ail ryfel mawr. Ni chafodd democratiaeth gyfle i ffynnu yn yr Almaen.

Profodd darostyngiad gwaradwyddus yr Almaen yn ormod i Martin Niem6eller, Prwsiad o genedlaetholwr aden dde, ei stumogi. Penderfynodd ef, a gafodd Groes Haearn, Dosbarth Cyntaf, gan Kaiser Wilhelm am ei wasanaeth fel capten llong danfor, ymfudo i Dde America. ond cafodd dröedigaeth grefyddol a'i perswadiodd i aros ac i wasanaethu ei gyd-wladwyr fel gweinidog Cristnogol. Ym 1934 bu llidwynebiad enwog rhyngddo a Hitler a Goering. Daeth yn arweinydd yr Eglwys Gyffesol, y rhan o'r Eglwys Lwtheraidd a wrtbododd ildio i'r Natsïaid. Fe'i restiwyd yng Ngorffennaf 193,7 ar ei ffordd allan o'r eglwys a'i ddal am saith mis heb brawf. Yna, er methu o'r achos o deyrnfradwriaeth yn ei erbyn, fe'i dygwyd i Dachau lle y bu lies ei ryddhau gan y Cynghreiriaid ym 1945. Yn y gwersyll-garchar hwn y daeth yn heddychwr Cristnogol. Fe'i hargyhoeddwyd Dad oedd yn gyfreithlon i Gristion ladd, ac nad oedd y fath beth yn bosibl a rhyfel cyfiawn. 'Y mae pob person dynol yn frawd imi,' meddai. Ymdaflodd i'r gwaith o adeiladu'r mudiad heddwch, gan ddwyn ei genadwri i wledydd Ewrop, gan gynnwys Cymru. Ymdrechodd i gymodi'r Almaenwyr a'r Comiwnyddion. Cafodd Wobr Heddwch Lenni am ei waith dros heddwch yn Fietnam.

Am ddeng mlynedd a mwy wedi'r Cadoediad rhan ganolog o weithgarwch heddychwyr, a George Davies yr amlycaf yn eu plith, oedd ceisio darbwyllo llywodraethau Prydain a Ffrainc i ddilyn polisi o gymod a chyfiawnder yn yr Almaen, a'u rhybuddio mai rhyfel arall fyddai canlyniad anochel y polisi a ddilynid. Ysgrifennodd George Davies bamffled grymus, *Reparations and Industrial Ruin,* ar effaith y polisi ar ddiwydiant glo Cymru. Fe'i danfonodd at ddiwydianwyr amlwg ac at esgobion ac arweinwyr crefyddol, ac fe'i trafododd gyda Lloyd George. Bu sawl cyfarfod rhyngddo a Lloyd George, pan oedd hwnnw'n Brif Weinidog, ynghylch sefyllfa ddyrys Iwerddon. Ceisio cymod rhwng y ddwy blaid ddig a wnâi George Davies, a chan fod De Valera, a oedd ynghudd yn Iwerddon, yn ymddiried ynddo, llwyddodd i sicrhau'r drafodaeth rhwng y cenedlaetholwyr Gwyddelig a Llywodraeth Llundain a arweiniodd at heddwch. Eithr yr hyn a roes heddychiaeth Gristnogol Gymreig ar y map gwleidyddol oedd buddugoliaeth syfrdanol George Davies yn etholiad 1923, pan enillodd sedd Prifysgol Cymru fel Heddychwr Cristnogol. Cyffelybwyd yr argraff a wnaeth ei fuddugoliaeth i effaith cefnogaeth Undeb Dadlau Rhydychen ddeng mlynedd yn ddiweddarach i'r cynnig, *'We will not fight for King ond country'.*

Roedd y mudiad heddwch ac ofn rhyfel arall ar gynnydd yn nechrau'r tridegau. Ffeindiais pan euthum i Goleg Aberystwyth ym 1931 rod Direr o heddychwyr fel finnau yno. Yn ogystal â chyfarfodydd i wrthwynebu rhyfel a galw am ddiarfogiad trefnem arddangosfeydd effeithiol yn neuadd y dref i ddangos natur rhyfel. Trefnodd Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr genhadaeth yn y coleg i'r Canon Charles Raven, un o heddychwyr amlycaf ei genhedlaeth.

Cynyddai heddychiaeth drwy'r enwadau ymneilltuol. Poenodd hyn y Parchedig Gwilym Davies, trefnydd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd, a chwynai wrth yr Arglwydd Davies, Llywydd yr Undeb, rod symud amlwg tuag at '*out ond out pacifism'* ymhlith yr enwadau mawr. Sefydlwyd Cyngor Grwpiau Heddychwyr Cristnogol i gyfuno ymdrechion cymdeithasau pasiffistaidd yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid. Ym 1930 cariwyd penderfyniad yn Undeb yr Annibynwyr, a gynigiwyd gan W. J. Nicholson, Porthmadog, a'i eilio gan W. J. Rees, Allt-wen, arweinydd heddychwyr yr Annibynwyr am chwarter canrif, 'yn datgan ein gwrthwynebiad i ryfel, wreiddyn a changen, fel peth sy'n gwbl groes i egwyddor ganolog crefydd Crist, ac yn cyd-ymrwymo i ymwrtbod a phopeth a'i duedd i arwain at ryfel, a phopeth a fo'n gefnogol i ryfel mewn unrhyw fodd' . Pasiodd Undeb y Bedyddwyr benderfyniad tebyg ym 1932. Dechreuai'r heddychwyr Cristnogol dyfu'n gorff sylweddol.

Ym 1934-5 cafodd y Bleidlais Heddwch fawr ar ddiarfogi a drefnwyd gan Undeb Cynghrair y Cenhedloedd gefnogaeth gref gan heddychwyr o bob math. Bu mwy o frwdfrydedd drosti yng Nghymru nag yn yr un wlad arall ym Mhrydain. Pleidleisiodd 34 y cant yn yr Alban, 37 y cant yn Lloegr, ac yng Nghymru 62 y cant. Cyfartaledd Sir Gaernarfon, lle y penderfynwyd creu'r Ysgol Fomio flwyddyn yn ddiweddarach, oedd 80 y cant, a naw o bob deg o'r rheiny am ddiddymu awyrennau bomio.

Roedd y Tan yn Llyn yn brotest ddeublyg. Un amcan oedd amlygu gwrthwynebiad i leoliad yr Ysgol Fomio a'i threfedigaeth Saesneg yn Llyn Gymraeg ei hiaith. Yr ail amcan oedd taro ergyd yn erbyn militariaeth ac yn arbennig fomio o'r awyr. Abertbodd y tri eu rhyddid dros Gymru a thros heddwch. 'Prif nod yr awyrblaniau bomio yn y rhyfel nesaf,' meddai Saunders Lewis, 'fydd dinasoedd mawrion gwledydd y gelyn ... [Eu pennaf nod] fydd dinistrio dinasoedd, eu llosgi a'u gwenwyno, troi gwareiddiad y canrifoedd yn ulw, gollwng i lawr . . . yr angau creulonaf ar wragedd a phlant a gŵyr di-arf a diamddiffyn.'

Yng Nghynhadledd Ddiarfogi'r Byd ym 1932, cyn dyfodiad Hitler, cynigiwyd gwahardd yn llwyr fomio pobl sifil o'r awyr a bod y gwledydd yn cytuno i ddiddymu pob bomio o'r awyr. Cafodd y cynnig gefnogaeth pob ganu mawr ond Prydain. Mynnai Anthony Eden fod yn rhaid i Brydain Fawr gadw'r hawl i fomio o'r awyr er mwyn amddiffyn ffiniau ei Hymerodraeth. Yr unig wledydd i'w chefnogi hi oedd Siam (Thailond), Persia (Iran) ac Irac. Mae cefndir Irac yn arwyddocaol. Fe'i rboddwyd i Brydain gan Gynghrair y Cenhedloedd fel mondet, a oedd mewn gwirionedd yn fath o drefedigaeth. Prydain a'i creodd ym 1920 gan osod mab Sheriff Meca yno fel llywodraethwr. Fe ddarostyngodd ei phobl a'r dwrn dur, neu'n hytrach a bomio o'r awyr a barhaodd am ddeng mlynedd. Dinistriwyd pentrefi cyfain. Defnyddiwyd bomiau cemegol yn erbyn y Cwrdiaid (nid Saddam Hussein oedd y cyntaf i wneud hyn); lladdwyd 9,000. Gollyngodd llu awyr Prydain fomiau cemegol ar bedair gwlad arall yn ei Hymerodraeth heblaw Irac.

Er nad oedd Saunders Lewis yn basiffist, ac er iddo ymladd yn fadlon fel milwr yn y rhyfel, roedd wedi ymwrthod yn llwyr erbyn hyn a'r ethig a gynhaliodd y rhyfel. Nodweddid ef, fel D. J. Williams a Lewis Valentine hwythau, gan fywyd ysbrydol eithriadol o ddwfn. Gwnaeth y tri eu safiad fel Cristnogion. *'Here in Wales,'* meddai Saunders Lewis, *wrth annerch y llys yng Nghaernarfon, 'is a land that has no tradition except Christian tradition. . . we stand for the preservation of that Christian tradition and for the supremacy of the moral law over the power of materialist bureaucracy.'* Eithr yr oedd D. J. Williams a Lewis Valentine yn heddychwyr Cristnogol. Dyna fu D. J. Williams byth oddi ar ei ddyddiau yng Ngholeg

Aberystwyth, a bu Siân ei wraig yn ysgrifennydd cangen Abergwaun o Heddychwyr Cymru trwy gydol y rhyfe!.

Cyfyngodd Lewis Valentine, a ddaeth yn Llywydd Cymdeithas Heddwch y Bedyddwyr, ei anerchiad i'r llys yng Nghaernarfon i'r wedd wrth-filwrol i'r weithred, gan siarad fel gweinidog yr efengyl ac yn ysbryd y penderfyniad a basiwyd gan Undeb y Bedyddwyr ym 1932 i 'ymwrthod a dwyn arfau dinistr' ac i wneud popeth yn eu ganu i atal rhyfe!. Buasai ef ei bun yng nghanol rhyfela gwaedlyd y Somme. Am ddyddiau lawer yn ystod y brwydrau hynny, meddai yn un o bamffledi Heddychwyr Cymru, nid oedd gonddo yn ei ddyddiadur ond un gair, a'r gair hwnnw oedd UFFERN. ond nid y rhyfel a'i brofiadau a'i gwnaeth yn heddychwr. Heuodd hwnnw ynddo gas angerddol at ryfel a militariaeth, ond nid oedd yn heddychwr ar ei derfyn. Fel hyn y disgrifia ddatblygiad ei heddychiaeth:

Addunedais yn Ffrainc, os dychwelwn, y rhown fy hall egni i wasanaethu Cymru a gwneuthur ei rhyddid a'i llwyddiant fy unig uchelgais, ac wrth anelu at yr uchelgais hwn y deuthum yn heddychwr . .. Yn araf deg daeth dau beth yn glir imi, sef na allwn arddel Crist yn Arglwydd a bod yn ddall i'r caethiwed a oedd yn llethu fy nghenedl, ac na allwn gynnig i'm cenedl unrhyw wasanaeth heb i gariad Duw yng Nghrist fod yn rowndwal iddo.
Yn arafach fyth y deuthum i weld na allwn ddal y ffydd hon a phledio rhyfe!, hyd yn oed ryfel a allasai gynnig ymwared buan i ni o'n helbulon yng Nghymru. Byddai ymarweddu tuag at amgylchiadau caethiwus ein dydd ni yn wahanol i ymarweddiad Crist at amgylchiadau ei ddydd yntau yn golygu newid un caethiwed am gaethiwed gwaeth. Satanigrwydd ydyw'r unig gynhaeaf a feda cenedl o ryfel -disgleiriach yw ei gobaith o ddewis y ffordd 'dra rhagorol'.

Yn ddiweddarach cyhoeddodd Lewis Valentine ei brofiadau yn y rhyfe! yn *Seren Gorner* dan y teitl 'Dyddiadur Milwr' , y darn gorau o ryddiaith Gymraeg i ddod allan o'r Rhyfel Mawr. Fe'i hailgyhoeddwyd wedyn yn y gyfrol o'i waith a olygwyd gan John Emyr.

O fewn ychydig flynyddoedd gwireddwyd y gwae a broffwydwyd gan heddychwyr a chenedlaetholwyr am fomio o'r awyr. Aeth Abertawe'n fflam, lladdwyd 387 yno; 620 yn Coventry; 40,000 mewn noson yn Hambwrg; 180,000 mewn deuddeg awr yn Dresden, dinas hardd a gwar a ddinistriwyd gan ffrwydradau a thanau uffernol am ei bod yn orlawn o ffoaduriaid, gwragedd a phlant yn bennaf, yn dianc oddi wrth luoedd yr Undeb Sofietaidd a oedd lai nag 80 milltir i ffwrdd, fel y bu'r Cwrdiaid yn ffoi rhag Saddam Hussein ar ddiwedd Rhyfel y Gwlff. Doedd gan Dresden ddim gwerth strategol; doedd dim cymaint â phont na gorsaf rheilffordd yn yr hen ddinas. Wrth fynegi ei ofid am y cyrch sgrifennodd un a fu ynddo: *'I was over Dresden on 14 February 1945 as a navigator in a Lancaster bomber. . . at the briefing we were told it was to be a "panic" raid, that the market-place would be full of refugees streaming in from the east, ond that our aiming point would be the market square. We had no choice.'* 'Bomber' Harris fu'r gwas yng ngofal yr anfadwaith, ond ei awdur oedd ei feistr gwleidyddol, Churchill.

Eto o'r awyr difodwyd 150,000 mewn fflach gan fom atom bychan yn Hiroshima. Cyfiawnhau hyd yn oed y Satanigrwydd hwn, a dal i sôn am ryfel cyfiawn, a wnâi'r mwyafrif llethol o'r eglwysi Cristnogol.

Fel yr oedd rhyfel arall yn amlwg nesáu cynyddai'r heddychwyr mewn rhif a rhoddent drefn fwy effeithiol ar eu gwaith. Ym 1936 sefydlodd y Canon Dick Sheppard y Peace Pledge Union, gyda'r Canon Stuart Morris yn drefnydd. Undeb oedd hwn o ugeiniau o filoedd o

ŵyr a merched a addunedai i ymwrthod a rhyfel. Ei Lywydd oedd George Lansbury, Cristion gloyw arall, a fu'n arweinydd y Blaid Lafur; ac ymhlith ei arweinwyr yr oedd Bertrond Russell, Aldous Huxley a'r Canon Charles Raven-mae'n.rhyfedd cymaint mwy o arweinwyr y mudiad heddwch oedd yn Eglwys Loegr nag yn yr Eglwys yng Nghymru. Perthynai miloedd o Gymry i'r mudiad a threfnwyd llu o gyrddau mawr ar hyd a lled y wlad. Er enghraifft bu George Lansbury yn annerch cyrddau yn y gogledd a'r de. Ar waboddiad Cymdeithas Heddwch y Methodistiaid Calfinaidd yng ngogledd Cymru ymwelodd Lansbury a nifer o ganolfannau ym Medi 1937 a chae1 capeli gorlawn yng Nghaernarfon, Bethesda, Pwllheli a Ffestiniog. Cefais y fraint o fod yn gyd-siaradwr ag ef mewn cwrdd heddwch yn Abertawe a orlenwai'r Neuadd Ganol enfawr bedair blynedd cyn iddi gael ei dinistrio yn y blitz ar y dref. Yn Gymraeg y siaredais, ac awgrymai ymateb brwd y dof fod y mwyafrif mawr yno'n Gymry Cymraeg. Byddai cwrdd tebyg i hwn yn amhosibl yn Abertawe heddiw oherwydd dirywiad yr iaith yng ngorllewin Morgannwg; ac nid yw'r math o gyrddau heddwch a gynhaliem ar gorneli stryd yn bosibl mwyach ychwaith o achos y cynnydd enfawr mewn traffig ar y ffyrdd.

Serch hynny, parhaodd heddychwyr yn lleiafrif bach yn yr eglwysi. ond roedd eu safbwynt yn glir a digymrodedd. Datganodd Gwilym Bowyer ym 1937 na welodd yr Eglwys eto fod rhyfel yn gwneud Efengyl y Cymod yn ffolineb. 'Y mae'n rhaid i'r Eglwys ddewis,' meddai, 'rhyfel neu Efengyl ... Nid marw a ofynnir arnom ond lladd, a- than amodau heddiw, lladd y cryf a'r gwan, ieuanc a hen, gwragedd a phlant yn ddiwahân.' 'Sylfaen ei argyhoeddiad,' meddai J. H. Griffith yn Yr Efrydydd, Mawrth 1938, am yr Heddychwr Diamodol Cristnogol, 'ydyw ysbryd a dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu Grist. . . ac yng ngoleuni y ddysgeidiaeth hon mae rhyfel yn fwy na difrod neu alanas neu wallgofrwydd, mae yn becbod, ac fel pechod y'i gwrthwyneba.

Gwirionedd sylfaenol yr Efengyl ydyw fod Duw yn Dad i bawb, a bod dynion wedyn o angenrheidrwydd yn frodyr i'w gilydd. Ni ellir mynd i unrhyw fath ar ryfel heb sarnu'r Dadolaeth hon a'r un pryd rwygo'r frawdoliaeth. Darostyngir y Tad i fod yn dduw llwyth neu ddosbarth, a phriodolir iddo ddial a chynddaredd a chreulondeb y llwyth neu'r gelled!. Anwybyddir neu gwedir dysgeidiaeth y Crist amdano.' Ym 1938 ffurfiwyd Heddychwyr Cymru fel aden led annibynnol o'r Undeb Llw Heddwch, a feddai ar 10,500 o aelodau yng Nghymru. Ei brif swyddogion oedd George M. Ll. Davies, Llywydd; Y Fonesig Artemus Jones, Is-lywydd; Richard Bishop, Cadeirydd; R. J. Jones, Is-gadeirydd; Mrs Dan Thomas, Trysorydd, ac Annie Jones (Humphreys wedyn) yn Ysgrifennydd. Deuthum i yn ysgrifennydd y flwyddyn ganlynol. Er bod nifer o'r swyddogion cenedlaethol, rhanbarthol a Lleol yn ddi-Gymraeg, y Gymraeg oedd iaith y mwyafrif mawr o gyhoeddiadau'r mudiad; deuai'r rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau Saesneg o Lundain. *Ymwrthodwn â Rhyfel* oedd teitl ei bamffled cyntaf. Cyfrannwyd llithiau i'w 32 tudalen gan George Davies, J. P. Davies a'r Fonesig Artemus Jones. Ar y ddalen gyntaf, awyrblanau bomio, y llosgwyd yr Ysgol Fomio mewn protest yn eu herbyn ddwy flynedd ynghynt, , a gai’r sylw. 'Ym mro dawel Morgannwg ac uwchben erwau llonydd Llyn,' meddai George Davies, 'fe glywir rhu'r awyrblenau yn paratoi am ryfel. oni ddywedodd yr Arglwydd Trenchard, cyn-lywydd y llu awyr, ei bod yn hen bryd peidio a son am amddiffyn;
ond paratoi'r bomber i ymosod?'

Ym Mehefin 1939, pan oedd y wlad yn mynd ar ei phen i ryfel, rhybuddiodd golygydd Y Dysgedydd rod cariad llu o bobl ifanc tuag at yr eglwysi wedi oeri oherwydd eu hagwedd at y Rhyfel 'Byd Cyntaf. 'oni safwn yn erbyn y cenllif,' meddai, 'bydd dydd gogoniant yr Eglwysi Rhyddion, o leiaf, yn tynnu tua'r terfyn.' , Tyfodd y mudiad pasiffistaidd yng

Nghymru yn bur gryf yn y ddwy flynedd cyn y rhyfel. Gorlenwai ei gyfarfodydd neuaddau a chapeli mwyaf y wlad. Datblygodd y drefniadaeth fwyaf effeithiol a welwyd hyd yn hyn. Amrywiodd ddulliau ei bropagonda. Er enghraifft, am y tro cyntaf cymerodd babell ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, un reit fawr, yng Nghaerdydd. Yno gwertbodd ymhlith pethau eraill filoedd o gopïau o argraffiad Cymreig arbennig o Peace News, y cylchgrawn da a swmpus a gyhoeddwyd gan y Peace Pledge Union ac a olygwyd am flynyddoedd gan Middleton Murry.

## Yr Ail Ryfel Byd

Yna digwyddodd yr hyn a fawr ofnwyd. Dau ddegawd ar ôl hau dannedd y ddraig yn Versailles cododd arfogion o'r ddaear yn lluoedd bygythiol ym Medi 1939. Unwaith yn rhagor amlygodd y Llywodraeth a'r cyfryngau eu ganu anferth i gyflyru meddwl y cyhoedd Cymreig. Roedd yr angen am dystiolaeth heddychwyr Cristnogol yn fwy nag erioed, canys er bod eu tystiolaeth bob amser yn hanfodol i'r ffydd Gristnogol, y mae'n arbennig o angenrheidiol ar adeg o ryfel pan all gwerthoedd Cristnogol gael eu mygu a'u hanghofio. Parhaodd Cymdeithas y Cymod i gyflwyno safbwynt heddychiaeth Gristnogol, ac ym 1943 penodwyd T. H. Williams yn ysgrifennydd llawn amser. Crëwyd celloedd newydd ganddo ac adeiladwyd y mudiad yng Nghymru trwy ei lafur a'i deithiau diflino. Cell Llanelli, a arweiniwyd gan Penry Jones, oedd un o'r  rhai pwysicaf.

Ond, wrth gwrs, lleihaodd rhif yr heddychwyr yn gyflym ar ôl dechrau'r rhyfel. Diflannodd o'u rhengoedd lu o'r rhai a , ymwrthododd a rhyfel yn ystod y tridegau. Er enghraifft, pan benderfynodd pwyllgor addysg dinas Caerdydd ddiswyddo gwrthwynebwyr cydwybodol ar ei staff diflannodd batbodyn y Peace Pledge Union oddi ar got George Thomas, Arglwydd Tonypondy wedyn. Serch hynny, safodd 2,920 o wrthwynebwyr cydwybodol yng Nghymru, dwywaith cyfartaledd Lloegr a'r Alban.Rhaid cyfaddef ei bod yn rhwyddach i'r meddwl pasiffistaidd ddatblygu yng Nghymru, sy'n genedl heb wladwriaeth i'w gwarchod. Fel heddychwyr Cristnogol y safodd y mwyafrif. Ni chafodd neb o'r rheiny eu carcharu, er i rai, fel lorwerth Peate, gael eu herlid a cholli eu swyddi. Gosodwyd y rhan fwyaf i weithio mewn swyddi anfilwrol, ar y tir, mewn coedwigoedd, mewn pyllau glo ac ati. Cafodd un neu ddau y cant ryddid diamodol.

Un o gymeriadau mwyaf lliwgar Heddychwyr Cymru oedd y cyn-filwr, Dan Thomas. Yn un ar bymtheg oed ymunodd a staff y banc a reolid gan George Davies yn Wrecsam, a phan ymunodd G.D. a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig perswadiodd Dan Thomas i ymuno gydag ef. Gwrthododd gael ei brynu allan pan gefnodd G.D. ar y fyddin, a chan hynny bu ymhlith y minteioedd cyntaf a groesodd i Ffrainc. Pan glwyfwyd ef ym 1916 fe ddychwelodd o'r ffosydd, yn gapten bellach, i ofalu am swyddfa recriwtio yn Wrecsam. Un o'i dasgau cyntaf oedd restio gwrthwynebwyr cydwybodol, a'i hen feistr a'i gyfaill mawr George Davies yn eu plith. Cysgodd G.D. yn ei lety y noson cyn ei fei yn y warchodfa. Ar ôl y rhyfel dychwelodd Dan Thomas i'r banc, yn weithgar fel heddychwr erbyn hyn ac yn aelod bywiog o'r Blaid Lafur-cafodd wahoddiad i sefyll drosti mewn etholiad seneddol. Eithr ynghanol y tridegau daeth yn genedlaetholwr ac am ugain mlynedd bu'n drysorydd Plaid Cymru.
Fel areithiwr roedd ganddo ddawn Môn yn ei chyflawnder, ac er ei fod yn rheolwr banc gwnaeth ddefnydd gwrol o'r ddawn hon er lles y mudiad heddwch a'r mudiad cenedlaethol. Roedd ei frwydr dros gyfiawnder i weision banc yn ddihareb. Bu'n un o sylfaenwyr yr Undeb Gweithwyr Banc ac am bedair blynedd yn ystod y rhyfel bu'n Llywydd yr Undeb.

George Davies oedd arweinydd heddychwyr Cymru yn ystod y rhyfel. Safai ar ei ben ei hUll. Anerchai'r cynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol ac ugeiniau o'r cyfarfodydd a drefnwyd. Mynychai gelloedd o heddychwyr, yr hoffai eu galw yn ynysoedd gobaith, dros y wlad. Sgrifennai epistolau a ddosberthid trwy'r canghennau. Cyhoeddodd ei lyfr *Pererindod Heddwch* cyn diwedd y rhyfel ac yr oedd yn awdur tri o bamffledi Heddychwyr Cymru. Cyhoeddodd y mudiad ddeuddeg ar hugain o'r pamffledi hyn. Hwy a gyfatebai i'r Deyrnas yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cefnogaeth Kate Roberts a Morris Williams a'r Faner, papur a fu'n gefn rhyfeddol i heddychwyr a chenedlaetholwyr trwy gydol y rhyfel, a wnaeth eu cyhoeddi  am dair ceiniog yr un yn bosibl. Bu cymorth Gwilym R. Jones gyda'r golygu yn hynod o hael a dihunan. Wrth adolygu'r pum pamffled cyntaf yn Yr Efrydydd dwedodd D. Myrddin Lloyd, 'Y mae cyhoeddi'r pamffledi hyn yn ddigwyddiad pwysig yn nhwf y meddwl Cymreig.'

Ymhlith awduron a golygyddion y pamffledi yr oedd Eirug Davies, George M. Ll. Davies, Ithel Davies, Pennar Davies, Rhys J. Davies, A.S., J. Gwyn Griffiths, Kate Bosse Griffiths, Dafydd Jenkins, T. Gwynn Jones, J. W. Jones, Gwilym R. Jones, Hywel D. Lewis, D. Myrddin Lloyd, Herbert Morgan, Tom Parry a Ben Bowen Thomas.

Aelodau o'r genhedlaeth ifanc a gyfrannodd i'r pamffled *Tystiolaeth y Plant.* Cynhwysent Rosalind Bevan, Arfor Tegla Davies, D. L. Trefor Evans, W. R. P. George, A. O. H. Jarman, Gerallt Jones, J. R. Jones, Annie Humphreys, D. Tecwyn Lloyd, Dewi Prys Thomas a Waldo Williams. Roedd Tystiolaeth y Tadau yn ddetholiad ardderchog gan Tom Parry o ddatganiadau a chaneuon am heddwch gan fawrion a beirdd y gorffennol o Tudur Aled a Morgan Llwyd ymlaen.

Cyhoeddodd Cymdeithas Heddwch yr Annibynwyr Cymraeg ddwy gyfrol ragorol o ysgrifau a chaneuon heddwch yn ystod y rhyfel o dan olygyddiaeth E. Lewis Evans a Simon B. Jones, un o Fois y Cilie. Yn eu deucant o ddalennau yr un, cynrychiolir o leiaf dair cenhedlaeth a thair plaid wleidyddol. Yn y gyntaf, y sgrifennodd y Prifathro John Morgan Jones ragair iddi, y mae lleisiau pedwar' enwad; ac yn yr ail, sy'n cario rhagair gan Oliver Stephens, cyfrennir hefyd gan ddau offeiriad o'r Eglwys yng Nghymru. Dylid nodi yma y cydweithrediad ages a fu rhwng y cymdeithasau heddwch enwadol a'r mudiad heddwch, yn arbennig Cymdeithas y Cymod, ar hyd y blynyddoedd.

Mynegodd Pennar Davies ym mhamffled Tystiolaeth yr Ifanc safbwynt llawer o heddychwyr Cristnogol wrth ddweud:
I
'r graddau y mae fy nghorff a'm meddwl yn perthyn imi, ganaf ddweud: Ni chant byth gymryd rhan yn yr anfadwaith hwn. i'r graddau y mae fy mywyd yn eiddo imi, y mae'n eiddo i Dywysog Bywyd. Dyna paham yr wyf yn heddychwr, a dyna paham yr wyf yn genedlaetholwr. Rwyf yn byw dros werthoedd bywyd; ni allaf na lladd na marw dros werthoedd angau ,.. Ceisiaf fywyd helaethach i'm cenedl a'm diwylliant am yr un rheswm y~ union ag y ceisiaf ddinistrio'r pethau a fyn lofruddio pob cenedl a phob diwylliant a phob bywyd . . . Yr un yw'r frwydr dros Gymru a'r frwydr dros heddwch a'r frwydr dros Deyrnas Dduw.

Gwahaniaeth mawr yn y sefyllfa Gymreig yn ystod yr Ail Ryfel Byd rhagor y cyntaf oedd presenoldeb cryf cenedlaetholwyr ymhlith y gwrthwynebwyr. Roedd llawer o'r heddychwyr Cristnogol, fel Pennar Davies, hefyd yn genedlaetholwyr. Safai'r Blaid Genedlaethol dros bawl Cymru i benderfynu ei hagwedd ei bun tuag at y rhyfel, a chredai mai dyletswydd

cyntaf cenedlaetholwyr oedd amddiffyn bywyd Cymru; doedd neb arall a wnaeth hynny. Gwelwyd yr angen yn gynnar iawn yn y rhyfel pan ddygodd y Swyddfa Ryfel 40,000 o aceri mynydd a dyffrynnoedd hardd Epynt a dinistrio cymuned Gymraeg fwyaf dwyreiniol y de trwy daflu deucant o Gymry Cymraeg o'u cartrefi er mwyn creu maes tanio magnelau mawr. Er gwrthwynebu hyn mor gryf ag y caniatâi amgy1chiadau rhyfel, collwyd y dydd a disodlwyd Bwlch y Groes a Hirllwyn, Gwybedog a Ffynnon Dafydd Bifan, Gilfach yr Haidd a Thafarn Mynydd gan Dixie's Corner a Piccadilly Circus, Canada Corner a Gallows Hill a phlannwyd gwersyll milwrol mawr ym Mhontsenni.

Un o'r rhai amlycaf a wrthwynebai raib Epynt oedd Dyfnallt, heddychwr a chenedlaetholwr cadarn a digymrodedd. Efe a roddodd arweiniad tra gwrol i'r gwrthwynebiad i'r corff o gadlanciau milwrol a ffurfiwyd yn rhai o ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin gyda'r Sais o gyfarwyddwr addysg, Mr. Mason, yn gyrnol.

Credai cenedlaetholwyr mai gwrthdrawiad rhwng y pwerau mawr oedd hanfod y rhyfel yn hytrach na brwydr rhwng egwyddorion. Ategai A. J. P. Taylor y farn hall. 'In my opinion,' meddai, *'the Second World War was a struggle for mastery or survival, with Fascism or anti-Fascism thrown in as a top dressing.'* Ystyr *'survival'* i Churchill a'r Saeson oedd parhad Lloegr/Prydain fel Gallu Mawr; ei ystyr i genedlaetholwyr heddychol Cymru oedd parhad y genedl Gymreig, ei hiaith a'i diwylliant. Pan ddwedodd Churchill fod cenedl a fethai a'i hamddiffyn ei bun yn haeddu cael ei sathru o fodolaeth, y wladwriaeth Brydeinig a'i grym ymerodrol oedd uchaf ar ei feddwl. Cwbl wahanol oedd swyddogaeth a dull heddychwyr cenedlaethol Cymru. Amddiffyn bywyd bregus Cymry'r genedl a wnaent hwy, nid trwy ryfel ond mewn ffordd ddi-drais.

Cafodd rhai heddychwyr a wrthwynebai'r rhyfel ar dir cenedlaethol yn ogystal â Christnogol eu holi'n bennaf yn y tribiwnlys, fel y cefais i, ar eu cenedlaetholdeb. Dyna a ddigwyddodd i Dewi Prys Thomas. 'Yr wyfyn Gymro Cristnogol,' meddai yn ôl adroddiad Y Faner. 'Fel dinesydd o Gymro credaf yn bawl fy nghenedl i ryddid, fel pob cenedl arall. Gwrthwynebai gwr o Tsiec ei orfodi i fyddin yr Almaen, a gŵr o Ffinlond ei orfodi i fyddin Rwsia. Rwyf finnau, yn Gymro, yn gwrthwynebu fy ngorfodi i fyddin Lloegr.' Mewn ateb i gwestiwn gan y Barnwr Frank Davies dywedodd ei fod yn cydymdeimlo a'r Ffiniaid am golli ohonynt y Karelian Isthmus, ond bod ei ofid pennaf dros Gymru am golli ohoni Lyn, Trecwn a Bethesda'r Fro. Cydymdeimlai a'r Ffiniaid am golli ohonynt Hangoa, meddai, ond clwyfwyd ef gan golli o Gymru Fynydd Epynt.

Galwad ganolog yr heddychwyr a'r cenedlaetholwyr ar y Llywodraeth oedd am heddwch trwy gytundeb a roddai galon i'r elfennau sylweddol yn yr Almaen a oedd am gael gwared ar Hitler. Yn Lloegr arweiniwyd yr alwad hon gan Esgob Chichester, a ddaeth i'r cyfarfod a alwyd yng nghartref Richard Roberts chwarter canrif ynghynt, a chyfaill Dietrich Bonhoeffer, y diwinydd mawr a ddienyddiwyd am ei gefnogaeth i gynllwyn i ddisodli Hitler. Y gŵr a wnâi'r alwad yn llafar yng Nghymru oedd Saunders Lewis yn erthyglau disglair 'Cwrs y Byd' yn Y Faner. Y papur clodwiw hwnnw, a safai fel y graig dros Gymru a heddwch trwy gydol y rhyfel dan olygyddiaeth Prosser Rhys, a wnaeth fwyaf i roi asgwrn cefn i heddychwyr a chenedlaetholwyr Cymru. Pe buasai'r Uno 1 Daleithiau a Phrydain wedi cytuno i wneud heddwch yn hytrach na mynnu lldio Diamod gan yr Almaen, cawsai degau o filiynau o fywydau eu barbed, gan gynnwys y miliynau o lddewon a ddifodwyd yn ail banner y rhyfel, ac y mae'n annhebyg y byddai'r rhyfel oer wedi digwydd.

## Ar ôl Hiroshima

Ar 6 Awst 1945 gollyngwyd y born atom ar Hiroshima, dinas ychydig yn fwy na Chaerdydd. Born bach un kiloton a ollyngwyd, ond meddai ar rym canmil tunnell o TNT. Er ei leied roedd ei nerth yn llawer mwy na'r holl TNT a ffrwydrwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Difododd bawb a phopeth o fewn milltir sgwâr. Dinistriodd 42 o 45 ysbyty'r ddinas; lladdodd 270 o'r 298 meddyg a 1,650 o'r 1,780 nyrs. Lladdodd 150,000 o'r dinasyddion mewn eiliad, a bu farw 50,000 wedyn o ganlyniad i'r ffrwydrad. Yna gollyngwyd born arall tebyg ar Nagasaki.

Agorodd ffrwydrad Hiroshima gyfnod newydd yn hanes y byd. Taflodd y bom, a ollyngwyd gan wlad Gristnogol, gysgod dros fywyd a dyfodol y ddynoliaeth o11. Bellach meddai dyn ar y ganu i ddifa'r hil ddynol. Nid oedd modd cyfyngu'r ganu arswydus i un wlad. Yn anorfod dechreuodd yr Undeb Sofietaidd anghristnogol adeiladu'r arfau satanaidd, a hefyd Brydain a Ffrainc a chwenychai eu dwy gadw eu hen safle fel ganuoedd mawr. Yn ddiweddarach dilynodd gwledydd eraill eu hesiampl.

Gwaethygodd y sefyllfa'n gyflym. Ym 1957 ganai Val Petersen, Gweinyddwr Amddiffyn Sifil yr Unol Daleithiau, gyhoeddi ei rod yn amhosibl amddiffyn pobl yn effeithiol yn erbyn ymosodiad niwclear. Dwedodd, *'If the whole 170 million Americans have Air Raid Shelters, at least 50 per cent of them would die in a surprise enemy attack.'* Erbyn y saithdegau gwnaethpwyd bomiau hyd at 50 megaton eu grym. Mae un megaton yn cyfateb i filiwn tunnell o TNT, sef dengwaith cymaint â bom Hiroshima. Roedd gan America y ganu i ladd pawb yn yr Undeb Sofietaidd ugain gwaith drosodd, a meddai'r Undeb Sofietaidd hithau ar yr un faint o allu. Eithr dalient i bentyrru'r arfau fwyfwy. Y sefyllfa yn yr wythdegau cynnar oedd hyn, pe defnyddid rhan sylweddol o'r taflegrau niwc1ear a feddai'r ddwy wlad, achosid gaeaf niwclear a ddistrywiai bob gwareiddiad ac efallai ddinistrio'r ddynoliaeth oll a phob creadur byw.

Yn yr amgylchiadau hyn, er i dystiolaeth Cymdeithas y Cymod wrth reswm barhau o blaid trechu drygioni trwy gariad, roedd yn anorfod i heddychwyr o bob math ymdaflu i fudiad a geisiai ddiarfogiad niwc1ear ac atal rhyfel, a allai droi'n rhyfel niwc1ear. Hwn, meddai Gwilym Bowyer, oedd y mudiad gwir eciwmenaidd. Eithr cyn bod ffurfio'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwc1ear (CND) bu heddychwyr Cristnogol wrthi'n trefnu gwrthdystiadau mawr yn erbyn arfau niwc1ear, megis yr un a drefnwyd ym 1950 yn Aberystwyth gan David Morris a myfyrwyr y Coleg Diwinyddol. Yn yr un flwyddyn trefnodd D. R. Thomas, a ddeuai'n Llywydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru yn y chwedegau, ymgyrch bythefnos ym Merthyr Tudful lle'r oedd yn weinidog Capel yr Hope. Yr uchafbwynt oedd rali y daeth 5,000 iddi, a anerchwyd gan
S. O. Davies, A.S., a Tudor Watkins, A.S. Ymgyrchodd D. R. Thomas dros heddwch ar hyd ei fywyd, gan annerch llu o grwpiau a chyrddau cyhoeddus a sgrifennu erthyglau a llyfrynnau, gan gynnwys Darlith Goffa Alex Wood 1985 ar y testun 'Newyddion Da i'r Byd'. Y Cymro cyntaf i draddodi'r Ddarlith Goffa hon oedd R.Tudur Ianes. Ei destun oedd 'Cymru a'r Cymod'.

Tyfodd CND yn fudiad torfol, nerthol a dylanwadol, y mudiad heddwch grymusaf a fu erioed. Dyma'r mudiad a ddeffrodd y cyhoedd i faint y catastroffi byd-eang a achosai rhyfel niwclear, ac a greodd ymwybyddiaeth yn y gorllewin o'r berthynas rhwng y gwariant ar arfau a thlodi'r trydydd byd. Yng Nghymru bu heddychwyr Cristnogol yn weithgar ynddo o'r cychwyn cyntaf. Pan ffurfiwyd CND Cymru fel rhan ymreolus o'r mudiad Prydeinig roedd

nifer o'i brif swyddogion yn heddychwyr Cristnogol. Owen Hardwicke, offeiriad pabyddol, oedd yr ysgrifennydd cyntaf. Am un mlynedd ar ddeg cyntaf ei hanes dau weinidog gyda'r Annibynwyr fu'r llywyddion. Gronw ab Islwyn, a fu'n ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod yn ne Cymru ar ôl I. T. Williams ac Aled ap Gwynedd, oedd y lywydd am chwe blynedd, a dilynwyd ef am bum mlynedd gan Rhodri Glyn Thomas, yntau'n aelod gweithgar o Gymdeithas y Cymod. Cadwodd CND Cymru aelodaeth o tua thair mil a hanner trwy'r blynyddoedd.

Llwyddiant mwyaf CND yng Nghymru yn ddiau oedd sicrhau bod yr wyth cyngor sir yn cyhoeddi eu bod yn siroedd diniwclear, gan ei gwneud yn bosibl hawlio bod Cymru gyfan wedi datgan ei bod yn ddiniwclear. Cafodd hyn sylw mawr. Er enghraifft, rboddwyd y newydd ar ddalen flaen papur dyddiol poblogaidd yn Siapan. Dywedodd E. P. Thompson rod cynulleidfaoedd wedi cacti ar eu traed pan gyhoeddodd y newydd yn lwerddon a Gwlad yr Ia. Amlygwyd nerth y mudiad hefyd pan amgylchynwyd pabelli yr Eisteddfod Genedlaethol sawl gwaith ar ben-blwydd bomio Hiroshima ar 6 Awst. Merched o Gymru a gerddodd i Gomin Greenham i sefydlu gwersyll yno, a Helen Wyn Thomas, Cymraes ifanc ddewr ac ymroddedig o Gastell newydd Emlyn, a laddwyd yno gan gerbyd rhyfel, yw merthyr y gwersyllwyr.

Trefnodd CND Cymru lawer o orymdeithiau a ralïau mawr yng Nghaerdydd, Caer-went a Breudeth, lle y mae sefydliadau perthnasol i ryfel niwclear. Bu sefydliad Americanaidd Breudeth yn darged mynych. Cafodd llawer eu dwyn gerbron llysoedd barn am gymryd rh an yn ymgyrch y Gaseg Eira yno. Gwelwyd ralïau heddwch lluosog hefyd mewn rhannau eraill o Gymru, megis Aberystwyth, Bae Colwyn, y Drenewydd a dwywaith yn yr Wyddgrug ar ben-blwydd cyhoeddi Cymru'n wlad ddiniwc1ear, yn ogystal â llu o gyfarfodydd mawr. Cyfrannodd Cymdeithas y Cymod £250 tuag at gost hysbysu tystiolaeth heddwch gan gwmni o weinidogion ac eraill ger R.O.F. Llanisien a wnâi ddeunydd gogyfer a'r born. Bu'r gwaith yn y wasg a'r cyfryngau eraill yn od o effeithiol, a chyhoeddwyd cyfnodolyn dwyieithog, *Ymgyrch Cymru.*

Bu CND Cristnogol yn egniol yn Nyfed. Daeth rum cant i rali, a anerchwyd gan Bruce Kent ac E. P. Thompson, a drefnwyd ganddo yng Nghaerfyrddin. Gweithredodd yn aml ym Mreudeth, y sefydliad pwysicaf yng Nghymru oedd yn gysylltiedig â rhyfel niwclear. Gweinidogion yr efengyl oedd ei arweinwyr. Yr amlycaf yn yr arweinyddiaeth fu Herbert Hughes, Eifion Lewis, Tim Morgan, alar Davies, Denzil lames, Hywel lanes, Rbodri Glyn Thomas, Guto Prys ap Gwynfor ac Aled ap Gwynedd. Yng Ngwynedd bu gwrthwynebiad nerthol i'r gorsafoedd niwc1ear ym Meirion ac Ynys Mon, a gynhyrchai ddeunydd gogyfer a thaflegrau niwc1ear. Nesta Wyn Jones oedd arweinydd amlycaf mudiad CADNO yn Nhrawsfynydd; ac ym mudiad P A WB, a wrthwynebai Wylfa B, roedd Emlyn Richards a Dylan Morgan ar y blaen.

Un o ymgyrchoedd effeithiolaf yr heddychwyr oedd honna yn erbyn y byncer niwclear a adeiladwyd gan Gyngor Dosbarth Caerfyrddin. Bu'r gwrthwynebiad yn gwbl ddi-drais. Cyn dechrau gweithredu ceisiwyd perswadio'r cyngor trwy reswm. Cafodd dau ohonom ei annerch. Danfonwyd llythyrau ato, ac aeth llu o erthyglau a llythyrau i'r wasg, ond yn ofer. Ni ddeallai'r mwyafrif mawr o'r cynghorwyr yr hyn oedd yn y fantol. Amlygodd eu dadleuon pa mor ddiffygiol oedd crebwyll rhai ohonynt. Credai un gynghorwraig fod yn rhaid wrth y byncer er mwyn iddi hi a'i theulu gysgodi'n ddiogel rhag y bom. Mynnai ffarmwr o gynghorwr nad oedd angen i ffermwyr Cymru ofni rhyfel niwclear am fod waliau eu ffermydd mor drwchus.

Am dri mis bu gwrthwynebwyr yn aros ddydd a nos yn y byncer, gan dynnu sylw'r cyhoedd at ynfydrwydd rhyfe! niwc1ear a'r amddiffyn sifil chwerthinllyd o ddiwerth. Dangosodd deiseb a drefnwyd gan yr ymgyrchwyr rod y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn erbyn y ffolineb costus. Cyflogodd y cyngor ffyrm i warchod y byncer gyda chymorth cŵn. Rhwygwyd bys bawd Sue Pitman i ffwrdd pan dynnwyd hi'n dreisgar gan un o'r gwarcheidwaid o'r glwyd uchel a amgy1chynai'r byncer. Heblaw'r glwyd, cododd y cyngor gatiau uchel wrth fynedfa'r maes parcio, a go sod gwyliwr wrthynt, er mwyn cadw'r protestwyr draw. Serch hynny, parhaent i bicedi'r fynedfa a phicedi'r cynghorwyr hefyd ar eu ffordd i gyrddau'r cyngor. Un tro eisteddodd cannoedd ar y palmant a'r ffordd fawr o gwmpas swyddfa'r cyngor.

Ymhlith yr arweinwyr amlycaf roedd tri gweinidog, Aled ap Gwynedd, Rbodri Glyn Thomas a Guto Prys ap Gwynfor. Buont ymhlith y cwmni a wysiwyd i'r llys yng Nghaerdydd pan hawliodd y cyngor swm o £140,000 oddi arnynt gan ddadlau bod eu gweithgareddau wedi cynyddu cost y byncer, a godasai i £450,000. Nid aethpwyd a'r achos i'r pen am fod y cyngor yn ofni datgelu ei aneffeithiolrwydd gwastraffus ei hun. Rhoddodd yr ymgyrch hon yr addysg orau a gafodd pobl ardal Cyngor Dosbarth Caerfyrddin ynglŷn â natur rhyfel niwclear a ffars yr hyn a elwid yn 'amddiffyn sifil' .

Fel y cynyddai perygl rhyfel niwclear tyfodd y mudiad heddwch. Daeth dros gan mil o bobl i amryw o ralïau yn Sgwâr Trafalgar, Llundain. Mae'n ddigon tebyg i dwf enfawr y mudiad gyfrannu at benderfyniad Gorbachev, a ddaeth i rym ym 1985, i gefnu ar bolisïau'r rhyfel oer. Bedair blynedd yn ddiweddarach digwyddodd y chwyldro di-drais rhyfeddol a ddymchwelodd drefn dotalitaraidd gwledydd dwyrain Ewrop a sefydlu trefn ddemocrataidd heddychlon yn ei lle. Darfu am Gytundeb Warsaw. Gan hynny, nid oedd yr Undeb Sofietaidd a gwledydd dwyrain Ewrop mwyach yn elynion i'r gorllewin. Daeth y cyfle i gael lleihad sylweddol ym maint y lluoedd arfog ac i gael gwared ar arfau niwclear. Eithr ymateb Prydain Fawr oedd parhau i gynyddu ei grym niwclear trwy adeiladu llongau tanfor Trident ar gost o £9,300 miliwn. Mae gan bob un Trident fwy o rym ffrwydrol na'r holl ffrwydron a ddefnyddiwyd yn y rhyfel byd diwethaf. Medd pob un o'u cant taflegryn ar fwy o allu dinistriol na born Hiroshima. Gellir eu saethu 6,000 o filltiroedd, gan anelu pob un at darged gwahanol. Gan hynny, y mae gan bob Trident y ganu i lofruddio miliynau o blant y gelyn, a'u mamau a'u tadau, eu neiniau a'u teidiau, pob un yn ddiniwed, pob un o werth anfeidrol. Cyhoeddodd Cymdeithas y Cymod fod eu hadeiladu yn drosedd yn erbyn Duw a'r ddynoliaeth.

Y peth mwyaf dychrynllyd o bechadurus yw'r parodrwydd i ddefnyddio'r arfau hyn pe barnai'r Llywodraeth fod hynny'n angenrheidiol. Rywsut lwydda'r mwyafrif o'r arweinwyr eglwysig i gysoni hyn a'r Gwynfydau, maniffesto'r Cristnogion. Tanlinella hyn faint y gwaith sydd gan y mudiad heddwch i'w gyflawni yn yr Eglwys.
Casgliad bychan o bobl yw Cymdeithas y Cymod yng Nghymru, gyda'r ddegfed ran yn unig o aelodaeth CND Cymru. Serch hynny, y mae ei thasg gwbl angenrheidiol yn lletach, fel y dywedodd Islwyn Lake, ei Chadeirydd presennol. 'Nid gwrthwynebu un ffurf ar filitariaeth yw ein galwad,' meddai, 'ond tystio'n gadarnhaol i ragoroldeb y cariad a welwn yng Nghrist Iesu a'i berthnasedd i hall fywyd dynolryw. Fe olyga ein bod yn ymwrtbod a phob trais . . . ' .

J. T. Williams yw'r swyddog a weithiodd am y cyfnod meithaf dros y Gymdeithas. Yn ystod ei 28 mlynedd fel ysgrifennydd deheudir Cymru fe welodd newid sylfaenol yn ei safle. O'r dechrau cyfrannodd at Gymreigio'r mudiad. Er bod Cyngor Cymreig wedi ei sefydlu pan

ddaeth i'w swydd parhaodd swyddogion y *Fellowship of Reconciliation* yn Llundain braidd yn anfodlon i gydnabod Cymreictod y Gymdeithas yng Nghymru. Nid heb ymdrech y cafodd J. T. Williams gymaint â phapur sgrifennu dwyieithog. Eithr gydag amser enynnwyd cydymdeimlad y swyddfa ganol a Chymru fwyfwy, a rhoddwyd cefnogaeth gynnes i Gymreictod y mudiad. Cynyddodd gweithgarwch y canghennau dan yr oruchwyliaeth newydd. Bu llewyrch ar lawer cwrdd cyhoeddus. Er enghraifft, anerchwyd cwrdd mawr gan Donald Soper yng Nghaerdydd, lle'r oedd canghennau Cymraeg a Saesneg. R. J. Jones ac Annie Humphreys oedd arweinwyr y gangen Gymraeg. Dro arall yng Nghaerdydd trefnodd y Gymdeithas gyfarfod a gadeiriwyd gan yr Esgob Glyn Simon, heddychwr amlycaf yr Eglwys yng Nghymru, er mwyn rhoi cyfle i Can Phang, merch alluog o Fietnam, gyflwyno achos ei gwlad.

Ymhlith cyfarfodydd eraill bu rhai a drefnwyd gan ganghennau Aberafan, Llansawel (Briton Ferry), Abertawe, Sgeti, Llanelli, Caerfyrddin a Llanbedr Pant Steffan. Yng Nghaerdydd ac Abertawe y Crynwyr oedd asgwrn cefn y canghennau Saesneg ac yn eu Tai Cyrddau y cynhelid y mwyafrif o'r cyrddau. Byddai J. T.Williams hefyd yn ymweld â changhennau colegau prifysgol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberystwyth. Yn y pumdegau trefnodd Dewi Z. Phillips, pan oedd yn llywydd y myfyrwyr yn Abertawe, ddadl ar heddychiaeth, gyda D. R. Thomas a J. T. Williams yn cynnal yr ochr basiffistaidd. Un arall y gwelodd y Gymdeithas ei orau am bron hanner can mlynedd yw'r Canon Dewi Thomas a ddilynodd Eirwyn Morgan yn y gadair, a'i llanw am wyth mlynedd. Deil yn weithgar fel ysgrifennydd rhanbarth Dyfed a chell Rhydaman, sy'n gell genhadol yn ogystal a bod yn effeithiol yn lleol. Y llynedd, er enghraifft, yr oedd capel Ebeneser yn y dref yn llawn pan ddaeth D. R. Thomas a Bruce Kent i annerch gŵyl heddwch. Y n Nyfed cell a fu'n gyson ei thystiolaeth ers ugeiniau o flynyddoedd yw Pontyberem sydd ers amser dan ofal Wilbur Lloyd Roberts.

Gweithgaredd gwerthfawr yn flynyddol rhwng 1948 a 1962 oedd cynnal Pabell Heddwch ar faes yr Eisteddfod Gydwladol yn Llangollen, diolch i Aled Williams, gweinidog yn Llangollen a gŵr a fu'n Llywydd Cyngor Cymreig y Gymdeithas yn y saithdegau cynnar, a Ffestin Williams a fu'n ysgrifennydd y gogledd am flynyddoedd. Am bedair blynedd ar ddeg bu'r babell yn ganolfan effeithiol i hybu cymod rhyngwladol. Dosbarthai lenyddiaeth Cymdeithas y Cymod mewn amryw ieithoedd.

Dan oruchwyliaeth bresennol yr Eisteddfod Gydwladol, fodd bynnag, dirywiodd y sefyllfa. Bu'r rheolwyr newydd yn anfodlon i Gymdeithas y Cymod osod pabell ar y maes, a gwrthodant drafod y mater gyda Nia Rhosier, sy'n byw yn Llangollen, tref yr Eisteddfod. Ni fu dim trafferth o gwbl yn y blynyddoedd cynnar i gael caniatâd i osod ar faes yr Eisteddfod babell a amcanai at wella'r berthynas rhwng cenhedloedd a'i gilydd. Roedd y prif swyddogion yn digwydd bod yn aelodau yng nghapel Rehoboth lle'r oedd Aled Williams yn weinidog: W. S. Gwynn Williams yn gyfarwyddwr cerdd, I. Rhys Roberts yn llywydd a lorwerth Roberts yn ysgrifennydd. Roedd Dan Thomas, yntau'n amlwg yn nhrefniadaeth yr Eisteddfod, hefyd yn aelod. Cedwid Rehoboth ar agar trwy gydol wythnos yr Eisteddfod a gofelid bod cyflawnder o lenyddiaeth Cymdeithas y Cymod a'r *International Fellowship of Reconciliation* yn y cyntedd.

Dilynwyd Ffestin Williams fel ysgrifennydd y gogledd gan Meirion Lloyd Davies, Harri Parri, Evan Lloyd Jones, loan Wyn Gruffydd a Ronald Williams. Gobeithiwyd cael trefnydd llawn amser i Gymru, ond er i Alun R. Edwards a Delwyn Phillips wella'r sefyllfa ariannol

yn fawr fel trysoryddion ni phrofodd hynny'n bosibl. Ym 1985 penodwyd Nia Rhosier yn ysgrifennydd cenedlaethol a rhoes hi lawer o'i hamser i'r Gymdeithas yn ddi-dâl.

Yn ystod rhyfe! enbyd Korea yn y pumdegau bu tystiolaeth yr heddychwyr yn amlwg. Cyd-ddigwyddai rhyfel Korea a dwysau'r rhyfel oer ac a dyfeisio'r bom hydrogen a oedd yn llawer iawn mwy grymus na'r bomiau a ddinistriodd Hiroshima a Nagasaki. Sgrifennodd Pennar Davies yn 'Cwrs y Byd' yn Y Faner yn Ionawr 1951, lai na chwe blynedd ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd, 'Mae'r dwymyn rhyfel yn prysur gael gafael nid yn unig yn yr Unol Daleithiau ond ar Wasg Seisnig Prydain Fawr . .. Y mae rhyfel yn felltith ac yn gabledd, ac nid yw'n llai o felltith ac o gabledd am fod gwyddonwyr America wedi perffeithio'r born mwyaf dinistriol a welodd y byd.

Os bu'n rheidrwydd erioed ar arweinwyr Cristnogol Cymru ddatgan barn Duw yn erbyn rhyfel, mae'n rheidrwydd yn awr.' Gofynnodd drwg beth y mae'n rhaid rhyfela. 'Dras y Cenhedloedd Unedig meddai Thai. Gwyr pawb bran erbyn hyn,' meddai Pennar, 'mai enw digrif ar America a'i chynghreiriaid a'i pharasitiaid ydyw'r geiriau "Cenhedloedd Unedig".' Onid yw'n drychineb fawr bod modd ailadrodd y geiriau hyn yn ystod Rhyfel y Gwlff ddeugain mlynedd union yn ddiweddarach?

Yn gynnar ym 1951 ffurfiwyd Mudiad Heddwch Eglwysi Cymru. Aelodau'r pwyllgor gwaith oedd T. Alban Davies (cadeirydd), D. O. Roberts (trysorydd), D. R. Thomas, D. Eirwyn Morgan al. T. Williams (ysgrifennydd). Cynhyrfwyd y dyfroedd gan ddatganiad a ddanfonwyd at bob gweinidog ac offeiriad yng Nghymru. Bu'r *Western Mail* yn chwerw ei feirniadaeth ac ymosodwyd yn chwyrn arno gan yr Esgob Edwin Morris, a ddaeth wedyn yn Archesgob Cymru. Un a amddiffynnodd yr heddychwyr oedd yr Esgob Glyn Simon. Trefnodd y mudiad gynadleddau llewyrchus iawn, y daeth tua mil o bobl iddynt, yng Nghaerdydd, Llanelli ac Aberaeron.

Amlygwyd ysbryd y cyfnod gan y modd y cystwywyd Dr. Tudur lanes am iddo rannu llwyfan mewn cwrdd heddwch yng Nghaerdydd gyda Wil Paynter, arweinydd y glowyr a Chomiwnydd o fri. Yn y cyfarfod collfarnodd Dr. Tudur ddatganiad y Cadfridog Montgomery y byddai'r rhyfel nesaf yn rhyfel i amddiffyn Cristnogaeth. 'Ni ellir gwisgo Crist mewn dillad milwr,' meddai.

Ymladdodd Prydain ryfeloedd eraill a wrthwynebwyd gan heddychwyr yn y pumdegau, megis yn Swes a Chyprus yn ail hanner y degawd a Malaya tua'i ddechrau. Ym Malaya dinistriwyd coedwigoedd a chnydau ardaloedd eang gan lu awyr Prydain trwy chwistrellu gwenwyn cemegol o'r awyr fel y gwnaeth yr Unol Daleithiau yn Fietnam.

Roedd hwn yn gyfnod o orfodaeth filwrol, a wrthwynebwyd yn egniol gan genedlaetholwyr a heddychwyr. Cafodd Chris Rees, aelod o gapel Annibynnol Cymraeg, benyd o ddeuddeng mis o garchar am wrtbod ar dir cenedlaethol gymryd ei gonsgriptio i'r fyddin. Cynhaliwyd un o'r cyrddau â drefnwyd i wrthdystio yn erbyn yr arfer gan Eglwysi Efengylaidd Gogledd Cymru yn Ninbych. Fe'i hanerchwyd gan Lewis Valentine, Hywel D. Lewis a Ted Lewis Evans, y tri yn seilio eu gwrthwynebiad ar eu heddychiaeth Gristnogol.

Un a gynhyrfwyd i'r dwfn gan Ryfel Korea a gorfodaeth filwrol oedd Waldo Williams, heddychwr Cymreig mwyaf nodedig y genhedlaeth wedi'r Ail Ryfel Byd, a mab i fam a thad o heddychwyr cadarn. Fel Bedyddiwr y maged Waldo ond nid yw'n syn iddo fwrw ei goelbren gyda'r Crynwyr, gan gydio mewn traddodiad tair canrif o heddychiaeth Gymreig.

Datganodd sail ei gredo yn Saesneg (doedd dydd y Gymraeg mewn llysoedd ddim wedi gwawrio yn Chwefror 1942) gerbron y Tribiwnlys yng Nghaerfyrddin:

*I believe all men to be brothers ond to be humble partakers of the Divine Imagination that brought forth the world. . . War, to me, is the most monstrous violation of this spirit that society can devise. I consider all soldiering to be wrong, for it places other obligations before a man's first duty, to his brother, a brother he cannot regard as a cipher to be wiped off the other side. .. I believe all men possess [Divine sympathy] obscurely ond in part, ond that it has attained its perfect expression in the life ond teaching of Jesus. . . whether or no this be a War for Liberty it is the man who stonds for universal ond individual brotherhood, he is liberty's truest friend.*

Noder y geiriau 'brodyr' a 'brawdoliaeth' yn y paragraff ucbod o ddatganiad Waldo. Rhed y geiriau 'brawd', 'brodyr' a 'brawdoliaeth' trwy'r datganiad oll, ac y mae'n thema gyson yn ei fywyd a'i farddoniaeth. 'Brawdgarwch' yw teitl y gan, sy'n crynhoi ei safbwynt, a gyfrannodd i Tystiolaeth y Plant, un o blith y gyfres o bamffledi a gyhoeddwyd gan Heddychwyr Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'n agor gyda'r pennill adnabyddus:

Mae rhwydwaith dirgel Duw
Yn cydio pob dyn byw.
Cymod a chyflawn we
Myfi, Tydi, Efe.

Y cwpled sy'n ei chloi yw:

Pa werth na thry yn wawd
Pan laddo dyn ei frawd?

Y blynyddoedd a ddilynodd ffrwydro'r bomiau atom yn Hiroshima a Nagasaki a welodd ei ganeuon mwyaf ingol. Pan bwysid arno i gydnabod ei ddyletswydd i'r wladwriaeth sy'n gwarchod y gymdeithas sifil, gofynnodd, 'Beth am ein dyletswydd i gymdeithas yr Eglwys, Corff Crist, y Wir Winwydden? A all canghennau o'r Wir Winwydden, rhannau o'r Eglwys, ymladd yn erbyn ei gilydd?' Nodwedd arbennig o fywyd Waldo oedd ei barodrwydd i weithredu ar sail ei argyhoeddiadau dyfnion. Roedd yn heddychwr gweithredol. Gohiriodd gyhoeddi'r gyfrol Dail Pren adeg Rhyfel Korea am iddo deimlo y byddai cyhoeddi ei ganeuon heddwch mewn llyfr 'yn ofnadwy, yn rhagrithiol, ac yn annioddefol, heb fy mod yn gwneud ymdrech i wneud rhywbeth heblaw canu am y peth hwn'. Safodd ddwywaith fel ymgeisydd seneddol Plaid Cymru yn Sir Benfro, y person annhebycaf i wleidydd a ymladdodd etholiad erioed. A'r heddychwr a'r cenedlaetholwr gweithredol a welwyd yn eistedd ar y ffordd yn gwarchae gwersyll milwrol Trawsfynydd gyda heddychwyr mawr megis D. J. Williams, Dan Thomas, Kitchener Davies, Pennar Davies ac R. Tudur Jones. A dyna pam y cafodd ei garcharu ddwywaith, ym 1960 a 1961, am wrtbod talu treth incwm, unwaith mewn gwrthwynebiad i'r gwario afradlon ar arfau rhyfel, a'r tro arall mewn gwrthwynebiad i orfodaeth filwrol. Dygwyd ei holl gelfi o'i gartref a'u gwerthu cyn ei garcharu. Gwnaeth yn ysgafn o'r profiad:

Y man hyn y mae'n hynod,
Mae'n llwm. Mae'r bwm wedi bod.
Aeth ymherodr y dodrefn
A'm byd i gyd ar ei gefn.

Talodd Waldo yn ddrud am ei egwyddorion, ond talodd yn llawen.
Carai blant yn angerddol. Roedd fel plentyn ei hun yn ei burdeb, ei ddiniweidrwydd a'i onestrwydd. Ond yr oedd yn ŵr o gadernid anghyffredin. Mentrodd y Chwaer Bosco ei alw'n sant Saif ei genadwri cyhyd ag y bydd byw yr iaith.

Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y
ffynnon rhag y baw.

Ymwelodd Martin Niemoller, y cyn-gapten llong danfor a droes yn Gristion o heddychwr, a Chymru yn niwedd y pumdegau. Arhosodd ar aelwyd J. P. Davies, un o heddychwyr gloywaf yr oes.J.P a Tom Nefyn a siaradodd yn angladd George Davies. Roedd J.P. yn gyfaill mynwesol i Ben Owen, heddychwr a chenedlaetholwr mawr arall. Pan aeth Ben Owen i'r ffrynt yn Ffrainc ym 1915, yr oedd, meddai, yn filwr proffesedig wedi llwyr dderbyn grym milwrol fel athroniaeth bywyd. Roedd yn filwr dewr: cafodd y Military Medal am achub cyd-filwr o 'no man's land'. Eithr, meddai, 'Collais Dduw wrth drill y cledd; wrth ladd a dysgu lladd ciliodd Duw i orwelion pellaf fy mywyd.' ond, medd Edwin Pryce Jones, yntau'n heddychwr a chenedlaetholwr digymrodedd, mewn ysgrif amdano, pan glwyfwyd Ben Owen ym mrwydrau'r Somme cariwyd ef yn ôl o'r ffosydd ac wrth gael ei gludo gwelodd y brwydro ffyrnicaf erioed. Yr oedd miloedd yn feirw cyn toriad gwawr: 'Aeth awr Satan yn awr Duw iddo a galwodd ef i gyhoeddi cymod ac i gondemnio llwybr y cledd fel pecbod pennaf dyn a gwareiddiad. Dychwelodd o Ffrainc i bregethu pasiffistiaeth.'

Bu Rhyfel Fietnam yn y chwedegau, a ymladdwyd gan yr Unol Daleithiau wyth mil o filltiroedd i ffwrdd o'i glannau, hyd yn oed yn fwy erchyll na Rhyfel Korea. Dinistriwyd saith miliwn o aceri (tua maint Cymru) o goedwig trwy ollwng arnynt un filiwn ar ddeg o alwyni o'r gwenwyn Agent Orange. Llosgwyd miloedd o bobl ddiniwed i farwolaeth trwy ollwng napalm arnynt. Bu'r bomio o'r awyr, yn arbennig ar Hanoi, mor farbaraidd â'r bomio yn y Gwlff, a pharhaodd lawer yn hwy. Gwrthwynebai heddychwyr y gyflafan hon mor gryf ag y ganent. Aeth Ifan Wyn Evans a finnau ymhellach trwy ymuno a chwmni o bobl, a arweiniwyd gan Michael Scott, un o arwyr mwyaf ein hoes, a fwriadai sefyll dan y bomiau yn Hanoi fel protest a fyddai'n hoelio sylw'r byd ar yr anfodwaith. Eithr er mynd i Cambodia ni chawsom fisa i fynd i Ogledd Fietnam. Roedd Ifan Wyn eisoes wedi cerdded ar daith heddwch i Moscow.

Hyd 1976 bu Cymdeithas y Cymod yng Nghymru yn rhan o'r *Fellowship of Reconciliation* Prydeinig er bod ganddi ei Chyngor er 1951 ac arno gynrychiolaeth o gymdeithasau heddwch yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. ond ym 1976 gwelwyd datblygiad pwysicaf ei hanes. Peidiodd a bod yn rhanbarth o'r *Fellowship of Reconciliation* Prydeinig; daeth yn Gymdeithas annibynnol Gymreig, yn gyfrifol am ei gweinyddiaeth a'i chyllid ei hun. Fel y Gymdeithas yn Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon, y mae'n perthyn i Gymdeithas y Cymod Gydwladol, yr I.F.O.R. Sefydlwyd y Gymdeithas ryngwladol yn yr Isalmaen ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf pan ddaeth hanner cant o heddychwyr Cristnogol ynghyd i Bilthoven o tua dwsin o wledydd. Bellach y mae'n bod mewn degau o wledydd. Llywyddion anrhydeddus y Gymdeithas Gydwladol yw Hildegarde a Jean Goss-Mayr (a fu farw ym mis Ebrill eleni), heddychwyr mwyaf nodedig y genhedlaeth hyn, cymeriadau arwrol sydd wedi gweithredu'n ddi-drais dros gymod mewn sefyllfaoedd enbyd o anodd a pheryglus mewn amryw rannau o'r byd, megis y Philippines a De Affrica. Tystia eu bywyd nad goddef drygioni yn llywaeth yw ffordd yr heddychwr Cristnogol ond trechu drygioni trwy ddulliau positif a barcha les y gwrthwynebydd, sef dulliau cariad.Bu Nia Rhosier a Rwth Tomos

mewn gweithdai yng nghwmni'r Goss-Mayrs, a chyflwynwyd yr hyn a ddysgwyd yno mewn gweithdai yng Nghymru.

Sefydlwyd y Gymdeithas Gymreig annibynnol yn ffurfiol mewn cynhadledd fawr yn y Deml Heddwch, Caerdydd, dan lywyddiaeth Gareth Thomas. Canolbwyntiodd y prif siaradwr, yr Arglwydd Macleod, sefydlydd Cymuned Iona, ar y bygythiad niwclear. Ronald Williams a finnau oedd ei gyd-siaradwyr. Yn y gwasanaeth ynghynt yn y dydd pregetbodd Gwilym O. Williams, Esgob Bangor ar y pryd. Ei olynydd ym Mangor, yr Esgob Cledan Mears, yw heddychwr amlycaf yr Eglwys yng Nghymru heddiw. Llywyddwyd y gwasanaeth hwn hefyd gan Gareth Thomas, cadeirydd cyntaf y Gymdeithas Gymreig annibynnol, y bu ei farw ym mlodau ei ddyddiau yn ganed mar alaethus. Er bod y Gymdeithas Gymreig yn ddwyieithog, Cymraeg yw ei hiaith swyddogol.

Ymhlith ei gweithgareddau mwyaf gwerthfawr bu'r cynadleddau ieuenctid llewyrchus. Cynhaliwyd y gyntaf ym 1952, ar ôl penodi J. T. Williams yn ysgrifennydd y de. Wedyn fe'u cynhaliwyd broil yn flynyddol. Trefnodd Ioan Gruffydd amryw yng Nglan-llyn pan fu'n ysgrifennydd y gogledd, a threfnodd Gareth Thomas a Guto Prys ap Gwynfor rai yn Llangrannog. Bu penwythnosau a gweithdai i bobl ifainc yn Nhrefeca hefyd o dan oral Nia Rhosier; a phan oedd Ronald Williams yn ysgrifennydd Gwynedd trefnodd yntau gynadleddau ac ysgolion undydd i bobl ifainc. Ronald a luniodd y logo a ddefnyddir gan y Gymdeithas ar ei chyhoeddiadau, .ac ar y taflenni a'r sticeri ceir.

Ioan Gruffydd a ddaeth gyntaf i gysylltiad â Phobl Heddwch Gogledd Iwerddon; ceisiodd drefnu taith yng Nghymru i Mairead Corrigan a gafodd Wobr Heddwch Nobel ym 1977. Wedi iddi ddatgan o blaid tynnu'r fyddin o Ogledd Iwerddon cyhoeddodd y Gymdeithas bamffledyn Cymraeg a gynhwysai 85 awgrym o ffyrdd i hyrwyddo cymod yn y Chwe Sir. Datblygwyd y berthynas gan Nia Rhosier. Efeilliwyd Cymdeithas y Cymod Cymru a Chymdeithas y Cymod Gogledd Iwerddon. Cynhaliwyd Pererindod Heddwch mewn cydlyniad [i'r Gwyddelod. Ar Ŵyl Badrig 1990 cydgerddodd Gwyddelod, Albanwyr a Chymry o Lanbadarn Fawr i Gapel y Morfa, Aberystwyth, lle y pregethodd Noel Davies mewn oedfa ddwyieithog, ac yna cerdded at gofgolofn y ddau ryfel byd sydd ar dwyn y castell yn edrych dros y môr tuag Iwerddon. Yno offrymodd Ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Iwerddon a Chadeirydd F.O.R. Gogledd Iwerddon weddïau dros Ogledd Iwerddon a Chymru. Bu'r ddau hyn yn annerch cyfarfod yn y prynhawn ynghyd ag Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod Gydwladol. Yn yr hwyrymunodd y tri gydag Ysgrifennydd F.O.R. yr Alban a Noel Davies mewn seiat holi a gadeiriwyd gan Harri Pritchard Jones.

Buwyd hefyd yn cynorthwyo gyda'r gwersylloedd cymysg o Gatholigion a Phrotestaniaid yn Belfast a Lurgan a chyda'r Cynlluniau Chwarae i blant yno. Danfonwyd Berian Lewis draw i'r olaf am dair wythnos i rannu ei brofiad ym myd y ddrama. Bu Nia Rhosier draw yno hefyd, yn ogystal ag yn Nulyn a'r ganolfan gymod yn Corrymeela. Cyhoeddwyd portread o Mairead Corrigan ar ddalen flaen rhifyn cyntaf *Cymod,* a cheir fideo o gyfweliad a hi.

Y mae angen cymodi yng Nghymru hefyd rhwng y brodorion Cymreig a'r mewnfudwyr lluosog i'n gwlad. Aethpwyd i'r afael a hyn yng Ngwynedd, lle mae Awel Irene a Gwladys Price yn drefnyddion, pan drefnodd cell Dwyryd a Glaslyn gyfarfod llewyrchus i drafod mater dyrys y mewnfudwyr. Arweiniodd creu mudiad Parch at Gymru at sefydlu cangen o PONT, sy'n ceisio ennyn ymrwymiad at eu gwlad fabwysiedig ymhlith y mewnfudwyr.

Cadwodd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru gysylltiad agos a'r Gymdeithas Gydwladol (I.F.O.R.) y mae'n perthyn iddi. Bu Jim Forest, ysgrifennydd cyffredinol yr I.F.O.R., draw yng Nghymru-anercbodd gyrddau yn Wrecsam a Chaerdydd a bu Nia Rhosier yn cynrychioli Cymru yng Nghyngor yr I.F.O.R. yn Assisi. Roedd Bwdistiaid a Moslemiaid, Palestiniaid ac Iddewon, Pabyddion a Phrotestaniaid, ymhlith y cant a banner yno. Bu seminar pedwar diwrnod dan arweiniad Hildegarde a Jean GossMayr. Bu Nia hefyd mewn fforwm heddwch cydwladol yn yr Iseldiroedd.

Tynnwyd sylw at effaith ddinistriol militariaeth ar gymdeithas Gymraeg a daear Cymru pan gynhaliwyd gwasanaeth crefyddol yng nghanol maes tanio enfawr Epynt, ym mynwent capel y Babell nad oes dim ohono ar ôl ond ei seiliau. Saif y fynwent uwchben canolfan hyfforddi'r SAS ar lannau Afon Cilieni hardd. Cyhoeddwyd braslun o'r bregeth a draddododd Pennar Davies yn *Cymod.* Gwrthdystiodd y Gymdeithas yn erbyn rhaib Epynt hefyd mewn cyfarfod awyr agored yn ymyl Pontsenni, lle mae'r gwersyll milwrol mawr. D. Ben Rees a finnau oedd yn annerch.

Dathlwyd bywydau heddychwyr mawr y gorffennol. Cerddodd cant o aelodau'r Gymdeithas o Hen Gapel Llanbryn-mair i'r Ddiosg ym 1985 i gofio canmlwyddiant marw S.R. Anerchwyd gan Ifan Wyn Evans, un o blant Llanbryn-mair. Dyfrig Rees a drefnodd yr achlysur. Tair blynedd yn ddiweddarach cofiwyd canmlwyddiant marw Henry Richard gydag oedfa wrth ei gofgolofn ar sgwir Tregaron ar fore 20 Awst, a darlith, a gyhoeddwyd wedyn, gan Ieuan Gwynedd Jones yn y prynhawn. Dathlwyd canmlwyddiant geni George M. Ll. Davies y flwyddyn olynol mewn dwy ffordd. Darlith ar faes yr Eisteddfod yn Llanrwst oedd un. Fe'i traddodwyd gan E. H. Griffiths, awdur y cofiant gwych a oedd, wrth reswm, ar werth ym mhabell y Gymdeithas ar y maes. Y llall oedd pasiant, a drefnwyd gan Pryderi Llwyd Jones, ysgrifennydd cell Clwyd, ym Mhafiliwn Corwen. Portread o fywyd George M. Ll. Davies gan Dylan W. Williams oedd 'Rhyw Ymarferol Frawd' gan Harri Parri.
Dylid nodi hefyd rod trigain o ddisgyblion Ysgol Rhydfelen (un yn unig o'r cwmni a ddeuai o gartref Cymraeg) wedi cyflwyno perfformiadau ysgytiol o ddrama gerddorol yn seiliedig ar fywyd George M. Ll. Davies. Cyhoeddodd y Gymdeithas hefyd anerchiad ar ei fywyd a roddwyd i Gymdeithas Heddwch yr Annibynwyr.

Dau lyfr gwerthfawr a gyhoeddodd y Gymdeithas yw *Herio'r Byd* a *Dal i Herio'r Byd* dan olygyddiaeth D. Ben Rees, sydd hefyd yn olygydd *Peacelinks*. Rboddant hanes bywyd pump ar hugain o heddychwyr Cristnogol Cymreig, bob un ohonynt, ac eithrio S.R. a Henry Richard, o'r ganrif hall. Cyhoeddwyd llyfryn o waith Ieuan Gwynedd lanes ar Henry Richard, a dau ar George M. Ll. Davies gan Byron Howells a finnau. Llyfryn sylweddol arall a gyhoeddwyd yw *Y Groesffordd* gan Guto Prys ap Gwynfor. Ymhlith y pamffledi y mae tair o Ddarlithiau Coffa Alex Wood gan R. Tudur lanes, D. R. Thomas a finnau; fe'u cyhoeddwyd yn y ddwy iaith. Ceir pamffledi ar Cymod yn yr Hen Destament gan Gwilym H. Jones a Cymod yn y Testament Newydd gan D. P. Davies; Llythyr Agored at Gymry'r Wyth Degau gan Nia Rhosier; Y Dewis gan Glyn O.Phillips; a Rhyfel a'r Cristion gan George Caird. Daw cylchgrawn *Y Cymod* o'r wasg yn achlysurol.

Ail hanner yr wythdegau fu'r cyfnod mwyaf gobeithiol a welodd y ganrif hon, a rhaid cydnabod y clod sy'n ddyledus i Gorbachev am agor y ffordd at gymod. o dan ei arweiniad ef peidiodd yr Undeb Sofietaidd a bod yn elyn; darfu am Gytundeb Warsaw; daeth y rhyfel oer i ben. Lledodd glasnost a pherestroika trwy'r ymerodraeth Rwsiaidd a gwledydd y bloc Sofietaidd gan agar y ffordd garegog oddi wrth dotalitariaeth filitaraidd at ddemocratiaeth heddychlon. Gwawriodd cyfle mawr i ailadeiladu cenhedloedd dwyrain Ewrop a'r Undeb

Sofietaidd ar seiliau democrataidd, ac i greu dan nawdd y Cenhedloedd Unedig drefn heddychlon a gai wared ar ryfel.

Pan ysgrifennaf y geiriau hyn mae'n ymddangos bod y cyfle mawr yn y fantol. Ni all Gorbachev, wrth reswm, osgoi cyfrifoldeb am gwrs pethau oddi mewn i'r Undeb Sofietaidd, ond geilw sefyllfa economaidd druenus yr Undeb Sofietaidd a gwledydd dwyrain Ewrop am weledigaeth, tosturi a haelioni tebyg i'r hyn a welwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd yng nghynllun ysblennydd Marshall, os ydys i greu trefn ddemocrataidd sefydlog. Hyd yma ni ddangosodd y gorllewin weledigaeth o'r fath. Yna daeth argyfwng Kuwait a rhyfel cwbl ddiangen y Gwlff a'r trychineb dynol enbyd a'i dilynodd. Unwaith yn rhagor profwyd nad yw rhyfel yn datrys dim.

Am bedwar mis wedi i Saddam Hussein, a gawsai werth £30 biliwn o arfau rhyfel gan wledydd y gorllewin yn yr wythdegau, feddiannu Kuwait blodeuodd gobaith y byddai'r Cenhedloedd Unedig o'r diwedd yn ganu creu trefn heddychlon a sicrhâi gyfiawnder yn y Dwyrain Canol. Canys ymunodd y gwledydd dan ei nawdd i osod sancsiynau llym ar Irac er mwyn gorfodi Hussein mewn modd di-drais i ymadael a Kuwait. Roedd yn hysbys y cymerent o leiaf ddeuddeg i ddeunaw mis i gyrraedd eu nod. Ymhen pedwar mis ganai'r CIA o bawb gyhoeddi eu bod eisoes wedi peri gostyngiad o 97 y cant yn allforion Irac a 90 y cant yn ei mewnforion. Pe dyfalbarheid a sancsiynau ni fyddem wedi gweld y rhyfel a'i ganlyniadau erchyll.

Roedd gan yr Arlywydd Bush, fodd bynnag, amcanion eraill heblaw amddiffyn Saudi Arabia a symud Saddam Hussein o Kuwait. Er iddo gyfeirio'n rhagrithiol at greu 'trefn newydd' rydd a democrataidd, roedd creu democratiaeth yn Irac, a olygai fesur o ymreolaeth i'r Cwrdiaid, ymhell o'i fwriad ef a Phrydain Fawr, hen feistr Mesopotamia a gwledydd y Gwlff. Mynnent gadw'r drefn unbenaethol a gafodd eu cefnogaeth yn y wlad honno trwy'r  blynyddoedd. Glynent wrth y bwriad hwn hyd yn oed pan oedd Hussein yn difa'r Cwrdiaid, canys eu hamcan sylfaenol oedd sicrhau trefn yn y Dwyrain Canol a gadwai wledydd yr olew o clan ddylanwad arhosol yr Unol Daleithiau a'i chynghreiriaid.

Penderfynwyd ar ryfel. Dyblwyd maint y lluoedd arfog yn Saudi Arabia. Mynnai heddychwyr y byddai rhyfel Did yn unig yn enbyd o anfoesol; byddai'n wallgof, gyda chanlyniadau amhosibl eu rhagweld, yn rhanbarth y Gwlff ac ymhell y tu hwnt iddo, canlyniadau dynol ac ecolegol, gwleidyddol ac economaidd. Am ei bod wedi hen arfer a gwasanaethu'r wladwriaeth, Did oedd llais yr Eglwys Gristnogol yn berthnasol. Ategu barn y gwleidyddion mai rhyfel oedd y ffordd i'w dilyn a wnaeth yr Eglwys fel corff yn Lloegr a'r Unol Daleithiau. Ni chafodd Cristnogaeth ddim dylanwad ar y cwrs a gymerwyd gan lywodraethau. Cyhoeddodd Eglwys Loegr, ac nid anghytunodd yr Eglwys yng Nghymru, rod y rhyfel yn gyfiawn.Gweddïai Saddam Hussein dros ei ryfel cysegredig ac Archesgob Caer-gaint dros ei ryfel cyfiawn, ond dangosodd Rhyfel y Gwlff mewn modd dychrynllyd iawn Dad oes y fath beth yn bod a rhyfel cysegredig na rhyfel cyfiawn, dim ond rhyfeloedd yn erbyn pobl ddiniwed.

Cafodd tua dau can mil o'r gelyn eu difa gan rym technolegol y gorllewin mewn lladdfa nas gwelwyd ei hyllach, ond collodd yr Unol Daleithiau lai o fywydau nag a gollwyd ar strydoedd Washington yn yr un cyfnod. Bomiwyd is-adeiladwaith Irac yn ôl i oes y cerrig gan ddinistrio'r cyflenwad dwr a thrydan a'r system carthffosiaeth yn y dinasoedd gan agar y ffordd i deiffoid a cholera ymledu.

Bydd drwg effeithiau ecolegol y rhyfel yn parhau'n hir iawn, rhai am ganrifoedd lawer efallai. Yn Kuwait ei bun bu'r dinistr materol a moesol yn ddifesur. Y mae'r broblem Balesteinaidd ganolog yn fwy llidus nag erioed. Ar ôl i'r Unol Daleithiau symbylu'r Cwrdiaid a'r Shiaid i godi mewn gwrthryfel yn erbyn Saddam Hussein cafodd degau o filoedd eu lladd, dinistriwyd llu o bentrefi a gyrrwyd miliynau o drueiniaid ar fro i fynyddoedd y gogledd a chorsydd y de, lle y bu ugeiniau o filoedd o wragedd a phlant farw clan amgylchiadau echrydus. Mae'r 'Drefn Newydd i'r Byd', y siaradai'r Arlywydd Bush am ei chreu ar ôl y rhyfel, yn llanast.

Rhaid i heddychwyr gymryd o ddifrif ddwy wers sylfaenol a danlinellwyd gan Ryfel y Gwlff, sef bod pentyrru arfau yn arwain at ryfeloedd a bod heddwch, ys dwedodd Morgan John Rhys ddwy ganrif yn ôl, yn blentyn cyfiawnder. Gwledydd y gorllewin a arfogodd Saddam Hussein ac unbenaethiaid eraill y Dwyrain Canol, fel yr arfogant wledydd tlawd y trydydd byd. Mae'n rhaid i heddychwyr anelu, nid yn unig at ddileu arfau niwclear, ond at waredu'r byd o'r fasnach yn yr arfau barbaraidd a elwir yn gonfensiynol. Prin bod y bom olaf wedi ei ollwng yn Rhyfel y Gwlff pan gyhoeddodd y Pentagon gynllun i werthu £18 biliwn o arfau i wledydd y Dwyrain Canol. ond yn y Ffair Arfau yno yn Dubai yn Nhachwedd 1991, gan Brydain Fawr y bydd y sioe fwyaf. Prydain yw'r gwerthwr arfau mwyaf yn y byd ar ôl yr Unol Daleithiau a'r Undeb Sofietaidd. O'r cyfan o'r arian a werir ym Mhrydain ar ymchwil a datblygu diwydiannol, a bran ei hanner ar arfau ac fe'u gwerthir i bob math o lywodraethau anfad, megis llywodraeth Indonesia a lofruddiodd hanner miliwn o bobl yn Nwyrain Timor.

Os yw diddymu'r fasnach arfau yn amod heddwch, y mae gwaredu'r byd rhag y gwario afradlon ar arfau hefyd yn amod cyfiawnder, yn arbennig cyfiawnder i dlodion y byd. Os yw'r rhyfeloedd a achosir gan ormod o arfau yn lladd lluoedd yn uniongyrchol, y mae arfau drudfawr, heb danio'r un ergyd, yn anuniongyrchol yn lladd miliynau o dlodion a newynogion y trydydd byd. Rhaid i heddychwyr ymdaflu a'u holl galon i ymgyrchu i drosglwyddo'r egni a'r cyfoeth a roddir i ryfela i'r ymdrech i ddileu tlodi a newyn. Fel hyn y mae gweithredu cariad yn ymarferol.

Wyneba heddychwyr y byd gan hynny dasgau aruthrol. Nid ydynt yn drymach yn unman nag yng ngwledydd Prydain, y dangosodd eu pobl yn Rhyfel y Gwlff mai nhw yw'r mwyaf rhyfelgar eu natur yn y gorllewin. Er bod heddychwyr Cristnogol yn syrthio mor enbyd o fyr o safonau Iesu, ac er ein bod mar llesg a diegni a'n hadnoddau mar bitw o fach, o'n blaen saif y nod mawreddog y mae'n rhaid cyrchu ato drwy'r Eglwys, dim llai nag uno'r ddynoliaeth yn y cariad a welwyd ym mywyd a marwolaeth Iesu. Y cariad hwnnw yw'r unig allu a fedr oresgyn drygioni a gorseddu cyfiawnder. Cariad Crist yw'r unig sylfaen ddigonol i'r gymdeithas ddynol; a'r cariad hwn sy'n ein gwahardd rhag rhyfela. Cred Cristnogion o heddychwyr fod teyrngarwch i'w cenedl, i'r ddynoliaeth, i'r Eglwys ac i'r Arglwydd Iesu yn galw arnynt i orseddu cariad mewn bywyd personol, cenedlaethol a chydwladol.